office of the independent adjudicator

'for students in higher education'

# Y Fframwaith Arfer Da:

## *Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol*

Rhagfyr 2020

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhestr astudiaethau achos | 4 |
| Rhagarweiniad | 5 |
| Beth yw ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol? | 6 |
| Amgylchiadau sy'n effeithio ar y mwyafrif neu'r holl fyfyrwyr mewn darparydd | 7 |
| Prosesau da ar gyfer ystyriaeth ychwanegol | 8 |
| Tegwch gweithdrefnol | 8 |
| Cyfathrebu'r broses i fyfyrwyr | 8 |
| Ystyried ceisiadau | 12 |
| Ceisiadau hwyr | 14 |
| Cadw cofnodion | 16 |
| Cyfrinachedd a diogelu data | 16 |
| Tystiolaeth a hunan-ardystiad | 17 |
| Gofynion o ran tystiolaeth | 17 |
| Hunan-ardystio a thystiolaeth feddygol | 18 |
| Tystiolaeth o brofedigaeth | 20 |
| Tystiolaeth ôl-weithredol | 21 |
| Polisïau "addasrwydd i sefyll arholiad" | 22 |
| Tynnu datganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl | 22 |
| Anabledd a cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol | 24 |
| Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | 24 |
| Addasiadau rhesymol i'r broses ystyriaeth ychwanegol | 25 |
| Amodau cyfnewidiol | 25 |
| Datgelu anabledd trwy gyflwyno sawl cais am ystyriaeth ychwanegol | 26 |
| Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a lleoliadau gwaith | 27 |
| Gofynion presenoldeb | 27 |
| Beichiogrwydd | 27 |

| | |
|---|---|
| Gwaith grŵp | 28 |
| Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig | 28 |
| Lleoliadau gwaith | 29 |
| Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill | 29 |
| Prentisiaethau | 30 |
| **Deilliannau ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol** | 31 |
| Enghreifftiau o ddeilliannau | 31 |
| Cadw marciau | 34 |
| Goblygiadau o ran ffioedd | 34 |
| **Apeliadau** | 35 |
| Amseru apeliadau | 35 |
| Sail ar gyfer apêl | 35 |
| Prosesau apelio | 35 |
| Adolygiad allanol annibynnol (SDA) | 35 |
| **Ystyriaeth ychwanegol a phrosesau cymorth i astudio** | 36 |
| **Ystyriaeth ychwanegol a phrosesau addasrwydd i ymarfer** | 37 |
| **Materion yn ymwneud â chwynion a godwyd mewn ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol** | 38 |
| **Monitro ystadegol ac adrodd yn ôl** | 39 |
| **Adnoddau defnyddiol** | 40 |
| **Atodlen 1: Prosesau cymorth i astudio** | 41 |

# Rhestr astudiaethau achos

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer da.


| | |
|---|---|
| Astudiaeth Achos 1<br>Ystyried ceisiadau ar sail eu ffeithiau unigol | 8 |
| Astudiaeth Achos 2<br>Rheoli disgwyliadau myfyrwyr | 12 |
| Astudiaeth achos 3 a 4<br>Derbyn neu wrthod ceisiadau hwyr | 15 |
| Astudiaeth Achos 5<br>Rhoi mantais yr amheuaeth i'r myfyriwr | 17 |
| Astudiaeth Achos 6<br>Cyfyngu ar nifer y ceisiadau hunan-ardystiedig am ystyriaeth ychwanegol | 19 |
| Astudiaeth Achos 7<br>Tystiolaeth o brofedigaeth | 20 |
| Astudiaeth Achos 8<br>Tynnu datganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl | 23 |
| Astudiaeth Achos 9<br>Cyflwyno'n hwyr ac anabledd | 25 |
| Astudiaeth Achos 10<br>Amodau cyfnewidiol | 25 |
| Astudiaeth Achos 11<br>Ceisiadau niferus am ystyriaeth a datgelu anabledd | 26 |
| Astudiaeth Achos 12<br>Rhoi deilliannau anghyffredin ar waith | 32 |
| Astudiaeth Achos 13<br>Dynodi myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol | 36 |
| Astudiaeth Achos 14<br>Monitro'r defnydd o brosesau ystyriaeth ychwanegol ac allgymorth | 39 |

# Rhagarweiniad

1. Mae'r Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn gosod egwyddorion craidd ac arfer gweithredol da ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Yr egwyddorion craidd yw: **hygyrchedd; eglurder; cymesuredd; prydlondeb; tegwch; annibyniaeth; cyfrinachedd; a gwella profiad myfyrwyr**. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn berthnasol i'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, o ran ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol.

2. Weithiau bydd myfyrwyr yn mynd yn sâl cyn neu yn ystod arholiad neu derfyn amser ar gyfer asesiad, neu mae eu perfformiad yn cael ei effeithio gan ddigwyddiadau annisgwyl eraill sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Yn gyffredinol, gall myfyrwyr ofyn i'w darparydd addysg uwch ystyried yr amgylchiadau hyn. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr broses ffurfiol ar gyfer hyn, a elwir yn aml yn weithdrefnau "lliniaru", "esgusodol" neu "amgylchiadau arbennig", neu "ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad".

3. Yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, rydym yn defnyddio'r term "ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol". Rydym wedi dewis y term hwn oherwydd credwn ei bod yn haws ei ddeall na thermau eraill sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin. Rydym yn annog darparwyr i ddefnyddio'r term hwn yn eu gweithdrefnau eu hunain.

4. Mae'n hanfodol wrth gwrs nad yw agwedd darparydd at geisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn peryglu safonau academaidd. Rhoi cyfle teg i fyfyrwyr ddangos y gallant gyrraedd y safonau hynny ddylai fod y nod, nid eu gostwng. Mae hefyd yn rhesymol disgwyl i fyfyrwyr yn gyffredinol allu ymdopi â digwyddiadau cyffredin bywyd, i reoli eu llwyth gwaith yn iawn, a disgwyl lefel o bwysau o amgylch asesiadau.

5. Mae'r rhan hon o'r Fframwaith Arfer Da wedi'i hadeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes a nodwyd gan ddarparwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr (gan gynnwys undebau myfyrwyr), y rhai sydd wedi gwneud cwynion a SDA. Ym mis Mawrth 2019, cynhaliwyd fforwm i annog sgwrs ynghylch sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â cheisiadau myfyrwyr am ystyriaeth ychwanegol, oedd yn cynnwys darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr. Cyhoeddwyd papur trafod gennym yn nodi rhai casgliadau o'r fforwm hwnnw, o'r nifer fawr o achosion rydym wedi ymdrin â nhw, ac o drafodaethau eraill a gafwyd gyda chyrff y sector ym mis Tachwedd 2019. Yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020, cynhaliwyd cyfres o drafodaethau ar-lein gyda darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr gan edrych ar themâu y mae'r papur trafod yn ymdrin â hwy. Mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r canllaw hwn.

6. Dylai'r rhan hon o'r Fframwaith Arfer Da gael ei darllen ynghyd â'r adrannau eraill, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd a Rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl. Rhestrir dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Adran hon ac adnoddau defnyddiol eraill ar ddiwedd yr Adran.

# Beth yw ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol?

**7.** Efallai y bydd myfyriwr yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol am rywbeth sydd wedi effeithio ar ei berfformiad mewn arholiad, asesiad neu brosiect, neu ar leoliad gwaith ymarferol, neu wrth ymwneud â'r cwrs yn fwy cyffredinol. Gall hyn fod yn salwch neu ddamwain, profedigaeth, neu rywbeth arall sydd wedi effeithio ar ei allu i astudio neu i baratoi ar gyfer, neu gwblhau, asesiad neu arholiad. Fel arfer bydd y digwyddiad neu'r amgylchiadau'n annisgwyl a thu hwnt i reolaeth y myfyriwr. Weithiau bydd tarfu ar arholiad, neu broblem gyda'r asesiad ei hun, yn effeithio ar grŵp o fyfyrwyr. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd sy'n effeithio ar fyfyrwyr yn fwy cyffredinol ar draws y darparydd, neu hyd yn oed yn ehangach, fel achosion o glefyd ar raddfa epidemig.

**8.** Mae prosesau ar gyfer ystyriaeth ychwanegol fel arfer wedi'u cynllunio i ddelio ag amgylchiadau dwys, ond byr-dymor, sy'n effeithio ar berfformiad neu allu myfyriwr i astudio. Os yw amgylchiadau myfyrwyr wedi cael (neu'n debygol o gael) effaith tymor hwy, yna mae'n bosib na fydd y broses ystyriaeth ychwanegol yn briodol. Efallai y bydd angen ystyried camau ychwanegol i gynorthwyo eu dysgu, er enghraifft eu cyfeirio at staff cymorth anabledd y darparydd neu ganiatáu iddynt gymryd peth amser i ffwrdd o'u cwrs nes eu bod yn gallu ail-afael yn eu hastudiaethau. Mae. Atodlen 1 yn cynnwys arweiniad ar brosesau cymorth i astudio.

**9.** Mater i ddarparwyr yw penderfynu pa fathau o amgylchiadau y byddant fel rheol yn eu derbyn o dan eu prosesau ystyriaeth ychwanegol, a pha fath o amgylchiadau y byddant fel arfer yn eu heithrio. Mae'n arfer da i ddarparwyr roi rhai enghreifftiau yn eu gweithdrefnau, fel y dangosir yn y tabl canlynol.

| Enghreifftiau o amgylchiadau sy’n debygol o gael eu derbyn | Enghreifftiau o amgylchiadau sy’n debygol o gael eu gwrthod |
|---|---|
| • Salwch neu anaf byr-dymor difrifol<br>• Salwch neu anabledd parhaus yn gwaethygu, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl<br>• Symptomau clefyd heintus a allai fod yn niweidiol pe bai’n cael ei drosglwyddo i eraill<br>• Marwolaeth neu salwch difrifol aelod agos o’r teulu neu ffrind<br>• Cyfrifoldebau gofalu annisgwyl am aelod o’r teulu neu ddibynnydd<br>• Argyfwng personol neu deuluol sylweddol yn arwain at straen dwys<br>• Bod yn dyst neu’n profi digwyddiad trawmatig<br>• Trosedd sydd wedi cael effaith sylweddol ar y myfyriwr<br>• Argyfwng llety fel cael eu troi allan o’u cartref neu fod y cartref hwnnw bellach ddim yn addas i fyw ynddo<br>• Argyfwng sy’n atal y myfyriwr rhag mynychu arholiad neu gyrchu asesiad ar-lein<br>• Problem dechnegol sy’n atal y myfyriwr rhag cyrchu addysgu neu asesiad ar-lein<br>• Pryderon o ran diogelu | • Gwyliau, symud tŷ neu ddigwyddiadau eraill oedd wedi’u cynllunio neu y gellid yn rhesymol fod wedi’u rhagweld<br>• Mân salwch fel annwyd cyffredin neu dwymyn y gwair, oni bai bod y symptomau’n arbennig o ddifrifol<br>• Asesiadau sy’n agos at ei gilydd ar yr amserlen<br>• Camddarllen amserlen yr arholiadau<br>• Rheoli amser gwael<br>• Ychydig o darfu ar drafnidiaeth<br>• Methiant cyfrifiadur neu argraffydd lle dylai’r myfyriwr fod wedi creu ffeil wrth gefn o’u gwaith<br>• Straen arholiad arferol<br>• Digwyddiadau bach mewn bywyd, oni bai bod yr amgylchiadau wedi cael effaith anghymesur |

**10.** Mae'n bosib y bydd myfyrwyr hefyd yn gallu defnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol lle mae ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus (fel gwasanaeth rheithgor) neu gystadlu mewn digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol neu ryngwladol neu weithgareddau proffil uchel eraill yn effeithio ar eu hasesiadau. Mae'n arfer da i ddarparwyr roi enghreifftiau o'r math o bethau y gellir eu derbyn ar y sail hon.

**11.** Er ei bod yn arfer da i ddarparwyr roi enghreifftiau o bethau a allai fod yn dderbyniol neu beidio o dan eu prosesau ystyriaeth ychwanegol, dylai darparwyr edrych yn ofalus ar unrhyw beth sy'n debygol o fod wedi effeithio ar berfformiad y myfyriwr. Mae'n bosib na fydd rhai problemau, er enghraifft caledi ariannol neu gyfrifoldebau gofalu a oedd yn bodoli cyn i'r myfyriwr ddechrau ar ei astudiaethau, yn rhesymau derbyniol dros roi ystyriaeth ychwanegol i fyfyriwr. Ond i rai myfyrwyr, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn deg ystyried yr anawsterau hynny wrth edrych ar berfformiad, diffyg presenoldeb neu gyflwyno gwaith yn hwyr gan y myfyriwr. Er enghraifft, gallai fod yn deg ystyried argyfwng ariannol annisgwyl myfyriwr (y tu hwnt i anawsterau cadw trefn ar arian) pe bai'r argyfwng yn amharu ar ei astudiaethau, neu roi ystyriaeth i gyfrifoldebau gofalu pe bai'r cyfrifoldebau hynny'n newid yn ystod astudiaethau'r myfyriwr neu eu bod wedi cael mwy o effaith nag yr oedd y myfyriwr yn ei ragweld.

## ASTUDIAETH ACHOS 1: Ystyried ceisiadau ar sail eu ffeithiau unigol

Roedd astudiaethau myfyriwr yn cael eu hariannu gan aelod o'r teulu, gan roi digon o arian i'r myfyriwr dalu ei ffioedd dysgu a'i gostau byw. Ychydig cyn dechrau arholiadau'r myfyriwr, tynnodd yr aelod o'r teulu arian yn ôl yn sydyn oherwydd bod ei fusnes wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ac nid oedd yr arian ar gael ganddo bellach. Roedd hyn yn golygu na allai'r myfyriwr dalu ei rent, a doedd ganddo ddim llawer o arian ar gyfer prynu bwyd, gan achosi gofid sylweddol iddo.

Nid yw proses ystyriaeth ychwanegol y darparydd fel arfer yn cynnwys anawsterau ariannol, ar y sail y dylai myfyrwyr sicrhau y gallant ariannu eu hastudiaethau, yn ogystal ag unrhyw argyfwng ariannol fyddai'n effeithio ar eu gallu i baratoi ar gyfer eu harholiadau, a chyllidebu'n briodol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, derbyniodd y darparydd gais y myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol yn yr achos hwn oherwydd ei fod wedi profi argyfwng ariannol sydyn ac annisgwyl a effeithiodd ar ei allu i baratoi ar gyfer ei arholiadau.

**12.** Oni bai bod myfyriwr yn profi symptomau arbennig o ddifrifol, fel rheol mae'n rhesymol i ddarparwyr eithrio mân afiechydon (fel annwyd cyffredin a phroblemau stumog byr-dymor) rhag prosesau ystyriaeth ychwanegol ar gyfer gwaith cwrs. Gall darparwyr ddisgwyl yn rhesymol i fyfyrwyr gynllunio eu gwaith a rheoli eu hamser yn briodol er mwyn gallu ymdopi â mân salwch byr-dymor.

**13.** Yn yr un modd, yn gyffredinol gall darparwyr eithrio mân afiechydon o brosesau ystyriaeth ychwanegol ar gyfer arholiadau. Ond byddai angen ystyriaeth ychwanegol pe bai salwch y myfyriwr yn ei atal rhag mynd i arholiad neu'n golygu bod yn rhaid iddo adael yn gynnar, neu pe bai'r myfyriwr yn colli arholiad oherwydd ei fod yn dioddef o fân symptomau clefyd heintus a allai fod yn niweidiol pe bai'n cael ei basio ymlaen i eraill.

**14.** Efallai y bydd rhai amgylchiadau sy'n effeithio ar grŵp o fyfyrwyr. Gallai'r rhain gynnwys tarfu ar leoliad arholiad oherwydd larwm dân, aflonyddwch yn yr ystafell arholiadau neu'r tu allan iddi, neu broblemau gyda phapur cwestiynau arholiad. Fel rheol, dylai darparwyr ystyried effaith y mathau hyn o amgylchiadau heb fynnu bod pob myfyriwr yn gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol. Dylai'r darparydd esbonio i'r myfyrwyr dan sylw'r hyn y maent ei wneud ynghylch yr amhariad. Dylai darparwyr, fodd bynnag, ganiatáu i fyfyrwyr unigol gyflwyno ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol os yw'r effaith arnynt wedi bod yn arbennig o ddifrifol.

**15.** Mae'n bosib y bydd gan rai darparwyr brosesau ar wahân ar gyfer ystyried ceisiadau am estyniadau i derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs, ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn ymwneud ag amgylchiadau a oedd yn effeithio ar grŵp mawr o fyfyrwyr, neu bryderon ynghylch lefel presenoldeb myfyriwr. Dylai egwyddorion yr adran hon fod yn berthnasol i'r prosesau ar wahân hynny.

# Amgylchiadau sy’n effeithio ar y mwyafrif neu’r holl fyfyrwyr mewn darparydd

**16.** Weithiau, gall fod amgylchiadau sy’n cael effaith ehangach, ac sy’n effeithio ar y mwyafrif neu’r holl fyfyrwyr mewn darparydd Er enghraifft, gall staff yn cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol neu argyfwng iechyd cyhoeddus fel achosion o glefyd ar lefel epidemig effeithio ar astudiaethau myfyrwyr. Fel rheol, dylai darparwyr gymryd camau y tu allan i’w prosesau ystyriaeth ychwanegol i liniaru’r amhariad a achosir. Wrth wneud hynny, dylai darparwyr feddwl am anghenion myfyrwyr unigol yn ogystal â myfyrwyr yn fwy cyffredinol. Gallai camau o’r fath gynnwys addasu sut mae addysgu’n cael ei gyflwyno a phryd, gan newid dulliau asesu o arholiad i waith cwrs neu i brofion ar-lein, dim ond cynnal arholiadau ar sail deunydd sydd wedi cael ei ddysgu neu ohirio asesiadau tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gallai hefyd gynnwys cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch dilyniant neu ddosbarthiad gradd myfyriwr, cyn belled ag y gellir gwneud hynny mewn ffordd sy’n amddiffyn safonau academaidd. Dylai darparwyr gyfathrebu’n glir ac yn aml â myfyrwyr a staff ynghylch y trefniadau sy’n cael eu hystyried, gan gynnwys amserlen ddisgwyliedig ar gyfer pryd y gallent gael eu rhoi ar waith.

**17.** Mae’n bosib y bydd rhai myfyrwyr yn elwa llai nag eraill yn sgil y trefniadau a wneir. Er enghraifft, efallai na fydd myfyriwr sy’n defnyddio ysgrifennydd ar gyfer arholiadau yn gallu manteisio ar gymorth cyfatebol os yw arholiadau’n cael eu disodli gan brofion ar-lein sy’n cael eu sefyll o bell. Gall gohirio asesiadau tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn effeithio ar fyfyrwyr sydd â chyflwr iechyd sy’n dirywio. Mae’n bosib na fydd gan rai myfyrwyr fynediad at fand-eang cyflym dibynadwy i elwa o addysgu ac asesu ar-lein; gall fod gan rai gyfrifoldebau gofalu ychwanegol sy’n cymryd amser i ffwrdd o’u hastudiaethau. O ganlyniad, efallai y bydd angen i rai myfyrwyr ddefnyddio’r broses ystyriaeth ychwanegol pan fydd effaith yr amhariad arnynt yn arbennig o ddifrifol ac nad yw’n cael ei liniaru’n ddigonol gan y camau a gymerir gan y darparydd.

# Prosesau da ar gyfer ystyriaeth ychwanegol

## Tegwch gweithdrefnol

**18.** Gall myfyrwyr sydd angen ystyriaeth ychwanegol fod yn teimlo'n isel eu hysbryd. Gallant fod yn bryderus iawn, yn ogystal â theimlo'n ofidus neu'n sâl. Mae'n bosib y byddan nhw'n ei chael hi'n anodd siarad am yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw, neu fynd ati i brofi'r ffeithiau. Gall y sefyllfa fod yn arbennig o sensitif am ryw reswm, efallai'n ymwneud â chrefydd neu ddiwylliant y myfyriwr. Dylai'r man cychwyn ar gyfer unrhyw broses ystyriaeth ychwanegol felly fod y caiff myfyriwr sy'n sâl, neu wedi'i anafu, neu wedi dioddef profedigaeth, neu sydd wedi bod trwy brofiad anodd, ei drin â thosturi, ac mewn ffordd sy'n deg ac yn gyson ar gyfer holl gorff y myfyrwyr.

**19.** Mae proses ystyriaeth ychwanegol deg:

- Yn hawdd ei chanfod, ei deall a'i dilyn;
- Yn cael ei hysbysebu'n dda, gyda myfyrwyr yn cael eu hatgoffa o'r broses ar adegau allweddol yn ystod eu hastudiaethau;
- Yn dweud wrth fyfyrwyr ble y gallant ddod o hyd i gyngor a chymorth;
- Yn nodi disgwyliadau yn glir, fel bod myfyrwyr yn deall pa amgylchiadau sy'n debygol o gael eu hystyried a pha fath o dystiolaeth y gallai fod angen iddynt ei darparu;
- Yn hyblyg ac yn ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau unigol;
- Yn egluro beth sy'n debygol o ddigwydd os derbynnir y cais - a beth fydd yn digwydd os na chaiff ei dderbyn;
- Yn dweud wrth fyfyrwyr sut y bydd eu hachos yn cael ei ystyried a pha mor hir y bydd hynny'n ei gymryd fel rheol;
- Yn gorffen gyda phenderfyniad ysgrifenedig, gan gynnwys rhesymau, yn cael ei anfon at y myfyriwr;
- Yn cynnwys proses ar gyfer sicrhau bod penderfyniadau yn gyson ar draws y darparydd;
- Yn cynnwys proses ar gyfer dynodi myfyrwyr sydd wedi gofyn am ystyriaeth ychwanegol sawl gwaith ac a allai fod angen cymorth neu gyngor ychwanegol;
- Yn cynnwys llwybr ar gyfer apelio;
- Yn cynnwys proses fewnol ar gyfer adrodd yn ôl sy'n caniatáu i'r darparydd nodi tueddiadau.

## Cyfathrebu'r broses i fyfyrwyr

**20.** Dylid cyfleu prosesau ar gyfer ystyriaeth ychwanegol, gan gynnwys terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith a pha dystiolaeth ategol y gallai fod ei hangen yn glir, a dylai fod yn gwbl hygyrch i bob myfyriwr. Dylai'r gweithdrefnau, y ffurflenni ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig fod wedi'u hysgrifennu mewn iaith syml a dylent fod ar gael mewn sawl fformat. Dylai darparwyr atgoffa myfyrwyr o'r broses ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn academaidd (er enghraifft ar ddechrau pob tymor neu semester a chyn dechrau arholiadau) a dylent gyfeirio myfyrwyr at ffynonellau cymorth a chyngor fel eu tiwtor personol, gwasanaethau llesiant, anabledd neu gwnsela a chanolfan gynghori corff cynrychioli'r myfyrwyr. Dylai staff sy'n ymwneud â chynorthwyo neu addysgu myfyrwyr ymgyfarwyddo â'r broses.

**21.** Dylai dyddiadau cau ar gyfer gwneud ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol ganiatáu digon o amseri fyfyrwyr ofyn am gyngor a, lle bo angen, cael gafael ar dystiolaeth ategol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd angen i ddarparwyr ganiatáu i fyfyrwyr gyflwyno eu cais gyda thystiolaeth ategol i ddilyn, os yw'r myfyriwr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar dystiolaeth erbyn y terfyn amser.

**22.** Mater i'r myfyriwr yw penderfynu a ddylai ofyn am ystyriaeth ychwanegol a pha wybodaeth i'w chynnwys yn y cais. Ond dylai cymorth fod ar gael i fyfyrwyr os oes angen help arnynt i wneud eu cais, er enghraifft gan eu tiwtor personol, gwasanaethau cymorth neu ganolfan gynghori corff cynrychioli'r myfyrwyr. Ni ddylai fod angen caniatâd na chymeradwyaeth gan diwtor personol (neu aelod arall o staff) ar fyfyriwr i'w gais gael ei ystyried.

**23.** Dylai'r gweithdrefnau ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig ddarparu gwybodaeth glir ynghylch deilliannau posib unrhyw gais am ystyriaeth ychwanegol, gan gynnwys apelio. Os yw'n ymddangos bod disgwyliadau myfyrwyr yn mynd y tu hwnt i'r hyn y byddai'r darparydd yn ei wneud fel rheol, dylid egluro hyn i'r myfyriwr er mwyn rheoli ei ddisgwyliadau ynghylch unrhyw ddeilliannau posib.

### ASTUDIAETH ACHOS 2: Rheoli disgwyliadau myfyrwyr

Mae myfyriwr yn gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol, gan ofyn am godi ei farc am arholiad oherwydd ei fod yn teimlo'n sâl ar y diwrnod. Mae'r darparydd yn egluro i'r myfyriwr nad yw eu prosesau'n caniatáu codi marciau fel hyn ac, os derbynnir y cais, yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yw y bydd yn cael sefyll yr arholiad eto fel pe bai am y tro cyntaf.

**24.** Yn achos rhai cyrsiau mae'n ofynnol i fyfyrwyr sefyll rhai asesiadau gyda'i gilydd. Gall hyn fod oherwydd bod angen i'r myfyriwr ddangos lefel cymhwysedd mewn sawl agwedd wahanol ar ei astudiaethau ar unwaith, er enghraifft ar gyfer gradd sy'n darparu cymhwyster proffesiynol. O ganlyniad i hynny, mae'n bosib y bydd yn rhaid i fyfyriwr ail-sefyll sawl asesiad er ei fod ond wedi methu un ohonynt. Mae'n bwysig bod darparwyr yn gwneud y gofyniad hwn yn glir i fyfyrwyr fel eu bod yn deall goblygiadau ail-sefyll modiwlau neu asesiadau.

**25.** Dylai'r gweithdrefnau ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig esbonio y gall darparwyr wirio tystiolaeth a gyflwynwyd i ategu ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol er mwyn sicrhau ei bod yn ddilys. Dylai'r gweithdrefnau a'r canllawiau hefyd egluro pa gamau a gymerir os oes amheuaeth bod myfyriwr wedi cyflwyno cais twyllodrus. Byddai hyn fel arfer yn golygu cyfeirio'r achos i'w ystyried o dan weithdrefnau disgyblu'r darparydd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ynghylch gweithdrefnau disgyblu.

## Ystyried ceisiadau

**26.** Mae'n bosib y bydd darparwyr yn dewis ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn lleol ar lefel ysgol, adran neu gyfadran, neu'n ganolog, neu gymysgedd o'r ddau yn dibynnu ar natur y cais ac a yw'n ymwneud â gwaith cwrs neu arholiadau. Pa bynnag agwedd a gymerir, dylai fod strwythur ar waith i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar draws y darparydd, yn enwedig lle mae ceisiadau'n cael eu hystyried yn lleol. Gallai hyn gynnwys: darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r holl staff sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau, sicrhau y gallant fwrw golwg dros benderfyniadau blaenorol, sy'n ddienw, fel y gallant fod yn gyson. I wneud hyn, gallant

gynnwys staff o ysgolion, adrannau neu gyfadrannau eraill wrth gadarnhau neu wirio ansawdd penderfyniadau, adrodd yn ôl ar benderfyniadau i gorff canolog neu fwrdd arholi sydd â goruchwyliaeth o'r broses, a monitro deilliannau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg.

**27.** Gall darparwyr benderfynu a ddylai ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol gael eu hystyried gan aelodau unigol o staff neu gan banel. Gall yr aelod o staff neu'r panel benderfynu a ddylid derbyn cais y myfyriwr ac os felly, beth ddylai'r canlyniad academaidd fod. Neu gallant benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod y cais yn unig, gan adael y penderfyniad am y canlyniad academaidd i fwrdd arholi.

**28.** Nid yw penderfynu a yw myfyriwr wedi cyflwyno achos da ar gyfer ystyriaeth ychwanegol yn ymwneud â barn academaidd fel rheol. Mae'n ddyfarniad ynghylch a oes rhywbeth wedi digwydd i'r myfyriwr, a pha effaith y mae hynny'n debygol o'i chael ar allu'r myfyriwr hwnnw i astudio, neu i baratoi ar gyfer asesiad neu arholiad neu berfformio'n dda ynddo. Mae hynny'n golygu na fydd angen i staff academaidd o bosib ymwneud â phenderfyniad cychwynnol ynghylch derbyn neu wrthod cais myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol, a phenderfyniadau a allai fod yn syml, megis gohirio asesiad y mae myfyriwr wedi'i golli neu ganiatáu estyniad byr ar gyfer gwaith cwrs. Mae'n bosib y bydd penderfyniadau eraill yn gofyn am elfen o farn academaidd i ystyried i ba raddau y mae amgylchiadau wedi effeithio ar berfformiad myfyriwr mewn gwirionedd, p'un a yw ei farciau yn anghyson â'i berfformiad arferol, p'un a allai asesiadau amgen fod yn briodol, neu pa mor debygol yw hi y byddai'r myfyriwr yn gallu cwblhau ei gwrs. Dylai darparwyr gadw'r ffactorau hyn mewn cof wrth gynllunio eu prosesau.

**29.** Dylai'r gweithdrefnau ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig nodi sut y bydd ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn cael eu hystyried, er enghraifft gan banel neu gan aelod unigol o staff.

**30.** Dylai'r person neu'r bobl sy'n edrych ar gais myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol fod wedi'u hyfforddi'n addas a dylent feddu ar ddealltwriaeth dda o brosesau'r darparydd, gan gynnwys y rheoliadau sy'n berthnasol i raglen gradd y myfyriwr. Fel rheol ni ddylent fod wedi ymwneud â'r myfyriwr o'r blaen mewn ffordd a allai ddylanwadu ar eu penderfyniad. Dylai darparwyr edrych ar ffyrdd i atal rhagfarn bosib wrth ystyried ceisiadau, er enghraifft defnyddio rhif myfyriwr y myfyriwr yn hytrach na'i enw.

**31.** Dylid ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn gyflym, a dylid nodi rhyw syniad o amserlen yn y gweithdrefnau. Gall gwahanol amserlenni fod yn berthnasol yn dibynnu a yw'r cais yn sensitif o ran amser (er enghraifft, cais i ymestyn dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs neu i ohirio arholiad sydd ar y gorwel), neu a yw'r myfyriwr yn gofyn am roi ystyriaeth i effaith ei amgylchiadau ar ei berfformiad academaidd - ac os felly, mae'n bosib y bydd angen i'r cais fynd at fwrdd arholi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**32.** Dylid gwneud penderfyniadau sy'n sensitif o ran amser cyn gynted â phosibl, ac fel rheol cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud. Yn achos ceisiadau sy'n gorfod mynd ger bron bwrdd arholi, dylai'r darparydd esbonio hyn i'r myfyriwr a nodi pryd y mae'n debygol y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Dylai'r darparydd ddweud wrth y myfyriwr os yw'n debygol o gymryd mwy o amser na'r amserlen a nodir yn y gweithdrefnau. Dylai'r broses ganiatáu dynodi achosion sy'n gofyn am weithredu arbennig o gyflym.

**33.** Pan fydd darparwyr yn cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill, gellir rhannu'r cyfrifoldeb am ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol rhwng y darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster a'r darparydd sy'n cyflwyno'r dysgu. Dylid nodi hyn yn y cytundeb rhwng y darparwyr. Dylai'r darparydd dyfarnu weithio gyda'r darparydd sy'n cyflwyno'r cwrs er mwyn sicrhau agwedd gyson wrth fynd ati i ystyried ceisiadau. (Gweler 'Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill' isod).

## Ceisiadau hwyr

**34.** Dylai darparwyr osod terfynau amser clir i fyfyrwyr ofyn am ystyriaeth ychwanegol, a ddylai ganiatáu digon o amser i fyfyrwyr ofyn am gyngor a chael gafael ar dystiolaeth ategol lle bo angen hynny. Fel rheol mae'n rhesymol disgwyl i fyfyrwyr wneud eu cais erbyn y terfyn amser, neu ofyn am estyniad cyn y dyddiad cau os oes angen mwy o amser arnynt.

**35.** Weithiau gall fod gan fyfyriwr reswm da dros fethu'r dyddiad cau. Os mai dyna yw'r achos, dylai'r darparydd ystyried y cais am ystyriaeth ychwanegol. Mater i ddarparwyr yw gwneud hynny trwy naill ai eu proses ystyriaeth ychwanegol neu eu gweithdrefn ar gyfer apeliadau academaidd. Dylai'r broses gael ei hamlinellu'n glir yn y gweithdrefnau perthnasol. Dylai'r gweithdrefnau hefyd egluro, os gwneir cais yn hwyr iawn, y gall y darparydd fod yn gyfyngedig o ran y camau y gellir eu cymryd. Er enghraifft, gallai fod yn rhy hwyr i arholiadau'r myfyriwr gael eu gohirio i'r cyfnod ail-sefyll, a gallai hyn darfu ar ei astudiaethau.

**36.** Mae'n arfer da rhoi enghreifftiau yn y gweithdrefnau o'r hyn a fyddai fel arfer yn rheswm da dros wneud cais hwyr am ystyriaeth ychwanegol. Gallai enghreifftiau gynnwys y myfyriwr yn gorfod treulio amser yn yr ysbyty neu'n methu ag ymwneud â'r broses oherwydd salwch (gan gynnwys salwch meddwl) neu fod yn teimlo'r fath bryder o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd nes iddynt anghofio'r llwyr am ystyriaeth ychwanegol tan ei bod yn rhy hwyr. Efallai y bydd achlysuron hefyd pan fydd amgylchiadau'r myfyriwr mor ddifrifol ac eithriadol fel y byddai'n rhesymol i'r darparydd ystyried y cais am ystyriaeth ychwanegol waeth beth yw'r rhesymau dros ei gyflwyno'n hwyr.

**37.** Ni fyddai peidio â gwybod am y broses, neu beidio â sylweddoli bod eu perfformiad wedi cael ei effeithio tan ar ôl gweld eu canlyniadau, fel arfer yn cyfrif fel rhesymau da dros ofyn am ystyriaeth ychwanegol yn hwyr. Ond dylai darparwyr ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau unigol.

**38.** Cyn belled â bod y broses ystyriaeth ychwanegol a'r dyddiadau cau cysylltiedig yn cael eu cyfathrebu'n glir i fyfyrwyr, fel rheol bydd yn rhesymol i ddarparwyr wrthod ceisiadau hwyr oni bai bod y myfyriwr yn rhoi rheswm da dros yr oedi. Os bydd y darparydd yn gwrthod y cais oherwydd ei fod yn hwyr, nid oes angen i'r darparydd fynd ymlaen i ystyried amgylchiadau'r myfyriwr fel rheol. Serch hynny, dylai'r darparydd esbonio i'r myfyriwr pam na dderbyniwyd ei gais am ystyriaeth.

## ASTUDIAETH ACHOS 3: Derbyn cais hwyr

Y dyddiad cau i fyfyrwyr ofyn am ystyriaeth ychwanegol ar gyfer eu harholiadau ym mis Ionawr oedd 1af Chwefror. Gwnaeth myfyriwr gais ar 7fedChwefror. Esboniodd y myfyriwr fod ei ewythr wedi marw'n sydyn yn ystod cyfnod yr arholiadau a bu'n rhaid i'w fam deithio dramor o ganlyniad, gan adael y myfyriwr yng ngofal ei frodyr a chwiorydd. Dywedodd y myfyriwr, er ei fod yn ymwybodol o'r broses ystyriaeth ychwanegol, ei fod yn gofidio'n arw yn sgil y brofedigaeth a'r effeithiau a gafodd ar ei fam, ac yn sgil y cyfrifoldebau gofalu a ddaeth i'w ran yn sydyn ac annisgwyl, ni feddyliodd am wneud cais am ystyriaeth ychwanegol tan ei bod yn rhy hwyr. Penderfynodd y darparydd fod gan y myfyriwr reswm da dros fethu'r dyddiad cau, ac felly derbyniodd ei gais am ystyriaeth ychwanegol.

## ASTUDIAETH ACHOS 4: Gwrthod cais hwyr

Y dyddiad cau i fyfyrwyr ofyn am ystyriaeth ychwanegol ar gyfer eu harholiadau yn nhymor yr Haf oedd 1af Mehefin. Cyflwynodd myfyriwr gais ar 15fed Gorffennaf, ar ôl darganfod ei fod wedi methu dau o'r arholiadau hynny. Dywedodd y myfyriwr, yr oedd ei gais yn ymwneud â phoen yn ei ysgwydd, nad oedd yn ymwybodol pa mor ddifrifol yr effeithiwyd arno nes iddo weld ei ganlyniadau, ac na allai fod wedi gwneud cais yn gynharach oherwydd na chafodd wybod am y broses i'w dilyn.

Mae'r darparydd yn ystyried ceisiadau hwyr am ystyriaeth ychwanegol o dan ei weithdrefn apelio academaidd. Nododd y darparydd fod manylion y broses ar gyfer ystyriaeth ychwanegol wedi'u cynnwys yn y llawlyfr myfyrwyr, ar eu gwefan ac ar eu platfform e-ddysgu, a bod amserlen arholiadau'r myfyriwr yn cynnwys dolen i'r broses. Roedd y myfyriwr yn ymwybodol o'i symptomau yn ystod yr arholiadau.

Penderfynodd y darparydd nad oedd gan y myfyriwr reswm da dros fethu'r dyddiad cau, ac felly gwrthododd yr apêl heb ystyried effaith amgylchiadau'r myfyriwr ar ei berfformiad.

## Cadw cofnodion

**39.** Dylai darparwyr gadw cofnodion cywir a chymesur o geisiadau am ystyriaeth ychwanegol a deilliannau ceisiadau o'r fath. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod a gynhelir i drafod yr achos, gan nodi pwy oedd yn bresennol, amlinelliad cryno o'r achos a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys y canlyniad i'r myfyriwr.

## Cyfrinachedd a diogelu data

**40.** Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu data parthed gwybodaeth bersonol sensitif neu "ddata categori arbennig". Mae hyn yn cynnwys esbonio i fyfyrwyr sut y bydd y darparydd yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth amdanynt, ac i ba ddiben. Mae'n arfer da tynnu sylw at y ffaith y gallai fod angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried unrhyw geisiadau blaenorol am ystyriaeth ychwanegol gan fyfyriwr wrth ystyried unrhyw geisiadau dilynol.

**41.** Dylid cadw gwybodaeth ynghylch ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol yn gyfrinachol cyn belled ag y bo modd gwneud hynny. Bydd llawer o geisiadau yn cynnwys gwybodaeth sensitif am iechyd neu amgylchiadau personol y myfyriwr, neu iechyd neu amgylchiadau personol eraill sy'n agos atynt. Dylid datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol i gyn lleied o bobl â phosibl, a dim ond i'r rhai sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau ac apeliadau dilynol. Dylai darparwyr storio gwybodaeth yn ddiogel ac yn unol â'u polisïau cadw data.

**42.** Wrth gynllunio systemau a phrosesau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol, mae'n arfer da i staff ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r darparydd er mwyn sicrhau bod y systemau a'r prosesau hynny'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae hefyd yn arfer da i staff sy'n ymwneud ag ystyried neu storio gwybodaeth ynghylch ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol dderbyn arweiniad cyffredinol gan y Swyddog Diogelu Data. Yn ogystal â gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain, mae'n bosib y bydd myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth sensitif am bobl eraill nad oes ganddynt unrhyw berthynas â'r darparydd. Er enghraifft, gallai fod yn briodol i ddarparydd gofnodi eu bod wedi gweld tystiolaeth am bobl eraill at ddibenion ategu cais myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol, ond i beidio â chadw'r dystiolaeth honno yn ei gofnodion am fwy o amser nag sydd ei angen ar gyfer ystyried unrhyw apêl ddilynol (a, lle mae myfyriwr yn apelio, iddynt ddod â chwyn atom).

# Tystiolaeth a hunan-ardystiad

## Gofynion tystiolaeth

**43.** Mae datganiad myfyriwr am yr hyn sydd wedi digwydd iddo yn dystiolaeth ynddo'i hun. Mater i ddarparwyr yw penderfynu pa dystiolaeth arall, os o gwbl, maen nhw'n gofyn i fyfyrwyr ei darparu i ategu eu ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol, neu i esbonio pam mae cais yn cael ei wneud ar ôl y dyddiad cau. Efallai na fydd angen tystiolaeth ategol ar gyfer rhai ceisiadau, er enghraifft os yw myfyriwr yn gofyn am estyniad byr ar gyfer gwaith cwrs neu'n hunan-ardystio absenoldeb o arholiad (gweler yr adran ar hunan-ardystio isod).

**44.** Lle mae angen tystiolaeth ategol, dylai hyn fod yn gymesur â difrifoldeb sefyllfa'r myfyriwr. Mewn rhai achosion, gall fod yn rhesymol i ddarparydd ofyn i'r myfyriwr am dystiolaeth fanylach os yw'n gofyn am gonsesiwn sylweddol (megis ail-wneud y flwyddyn neu gael ei amgylchiadau wedi'u hystyried wrth benderfynu canlyniad ei radd), na phe bai'n gofyn am rywbeth symlach fel gohirio arholiad a chael ei sefyll dan amodau cynnig cyntaf.

**45.** Mae'n arfer da i ddarparwyr roi enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth, os o gwbl, y bydd eu hangen arnynt fel rheol i ategu ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol, gan gynnwys arweiniad ynghylch tystiolaeth sy'n ymwneud â phobl eraill. Gallai tystiolaeth o'r fath gynnwys: llythyr neu nodyn addasrwydd gan feddyg, datganiad gan gwnselydd, llythyr apwyntiad ysbyty, rhif cyfeirnod trosedd, rhybudd cael eich troi allan o'ch cartref - neu dystiolaeth arall, annibynnol fel arfer, sy'n ategu datganiad y myfyriwr.

**46.** Dylai darparwyr ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau unigol, a dylai'r broses fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer gwahanol dystiolaeth os yw'r myfyriwr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y dystiolaeth ategol sydd ei hangen fel arfer. Dylai darparwyr fod yn barod, er enghraifft, i dderbyn tystiolaeth o ffynonellau fel: gwasanaethau trais domestig, y rhaglen Gwella Mynediad at Therapïau Seicolegol (IAPT), neu o ffynonellau cymorth mewnol fel cynghorwyr iechyd meddwl, cynghorwyr anabledd a thiwtoriaid personol, yn ogystal â thystiolaeth gan feddyg teulu. Mewn rhai achosion, gall fod yn amhosib i fyfyriwr gael gafael ar dystiolaeth annibynnol o'i amgylchiadau. Mewn achosion o'r fath, gall datganiad a wnaed gan y myfyriwr yn fuan ar ôl y digwyddiad fod yn ddigon i'r darparydd dderbyn ei gais. Fel rheol dylid rhoi mantais yr amheuaeth i fyfyriwr sy'n ceisio ymdopi ag amgylchiadau difrifol sy'n debygol iawn o fod wedi cael effaith ar eu perfformiad.

### ASTUDIAETH ACHOS 5: Rhoi mantais yr amheuaeth i'r myfyriwr

Roedd myfyrwraig mewn perthynas dreisiol gyda'i chymar, a phenderfynodd ei adael ychydig cyn ei arholiadau. Roedd y fyfyrwraig wedi ymweld â'i meddyg teulu yn y gorffennol ynglŵn â phroblemau yn ymwneud â straen, ond doedd hi ddim wedi mynd i weld ei meddyg teulu yn ddiweddar, a doedd hi dim wedi cysylltu â gwasanaethau cymorth eraill. Ni allai'r fyfyrwraig ddarparu tystiolaeth annibynnol o'r hyn oedd wedi digwydd iddi yn yr wythnosau cyn yr arholiadau, i ategu ei chais am ystyriaeth ychwanegol. Yn hytrach, darparodd y fyfyrwraig ddatganiad yn egluro'r anawsterau yr oedd hi wedi eu dioddef.

Derbyniodd y darparydd gais y fyfyrwraig am ystyriaeth ychwanegol a gohiriwyd ei arholiadau tan y cyfnod ail-sefyll. Hefyd cyfeiriodd y darparydd y fyfyrwraig at eu gwasanaeth cwnsela a'i chyfeirio at elusen cymorth trais domestig.

**47.** Pan fydd cais y myfyriwr yn ymwneud â salwch neu amgylchiadau eraill rhywun sy'n agos atynt, gall darparwyr ofyn am dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar y myfyriwr yn hytrach na thystiolaeth o'r amgylchiadau eu hunain. Ond mae rhai amgylchiadau lle byddai'n rhesymol i'r darparydd dderbyn y bu effaith ar y myfyriwr, heb fod rhaid i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth ar wahân sy'n dangos yr effaith. Er enghraifft, os yw myfyriwr yn darparu tystiolaeth i ddangos bod un o'i rieni wedi'i daro'n ddifrifol wael ychydig cyn ei arholiadau, fel rheol, ni ddylai fod angen gofyn i'r myfyriwr am dystiolaeth i ddangos bod salwch difrifol y rhiant wedi cael effaith arno. Pan fo perthynas y myfyriwr â'r person arall yn llai eglur, fe all fod yn rhesymol i'r darparydd ofyn i'r myfyriwr ddarparu mwy o wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol.

**48.** Dylai terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol ganiatáu digon o amser i fyfyrwyr gael gafael ar dystiolaeth ategol (lle mae angen tystiolaeth), gan gynnwys amser i dystiolaeth gael ei chyfieithu os yw mewn iaith dramor - neu dylent ganiatáu i fyfyrwyr wneud ceisiadau, gyda chyfle i gyflwyno tystiolaeth y ddiweddarach. Efallai na fydd myfyrwyr yn gallu fforddio defnyddio gwasanaethau cyfieithu ardystiedig proffesiynol, felly os oes angen cyfieithu tystiolaeth, dylai darparwyr fod yn barod i ystyried dewisiadau amgen i gyfieithiadau ardystiedig.

## Hunan-ardystio a thystiolaeth feddygol

**49.** Mae'r pwysau cyfredol ar y GIG yn golygu y gall fod yn anodd i bobl gael apwyntiad meddyg teulu yn gyflym, hyd yn oed os oes canolfan feddygol leol bwrpasol. Fel rheol nid oes angen triniaeth feddygol ar gyfer salwch sydyn sydd ddim yn ddifrifol iawn, fel anhwylder stumog neu feigryn, ac ni fydd llawer o feddygon teulu yn fodlon cyflyno tystysgrifau meddygol ar gyfer cyflyrau sy'n para llai na saith niwrnod. Gall cost cael tystysgrif feddygol, sy'n amrywio'n sylweddol o un practis meddygol i'r llall, hefyd fod yn rhwystr i rai myfyrwyr. Yn gyffredinol, ni ddylai darparwyr fod yn disgwyl i fyfyrwyr ymweld â'u meddyg teulu neu ddarparydd gofal iechyd arall oni bai bod ganddyn nhw (neu eu bod yn amau bod ganddyn nhw) gyflwr iechyd sy'n gofyn am driniaeth feddygol.

**50.** Mae'n arfer da i brosesau darparydd ganiatáu i fyfyrwyr sydd wedi cael salwch byr a gafodd effaith sylweddol ar eu harholiadau neu eu hasesiadau, ond nad oedd angen ymyrraeth feddygol arnynt, ofyn am ystyriaeth ychwanegol heb fod angen cael gafael ar dystiolaeth feddygol ategol. Er enghraifft, efallai y caniateir i'r myfyriwr hunan-ardystio ei salwch. Mae hunan-ardystio yr un fath â'r hyn sydd ar waith yn y mwyafrif o weithleoedd, lle caniateir i weithwyr fel arfer roi gwybod i'w cyflogwr am eu habsenoldebau eu hunain a hunan-ardystio cyfnodau byr o salwch. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd ar gyfer amgylchiadau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd.

**51.** Mae angen i broses sy'n caniatáu hunan-ardystio weithredu'n deg a lleihau'r risg bod y broses honno'n cael ei chamddefnyddio. Gallai hyn olygu:

- Gosod terfyn ar nifer yr asesiadau (neu ddiwrnodau) y caniateir hunan-ardystio ar eu cyfer, ac ar ôl hynny mae'n ofynnol i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth ategol;
- Esbonio'n glir beth fyddai goblygiadau hunan-ardystio ar gyfer absenoldeb o arholiadau neu asesiadau. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr gyflawni'r deilliannau dysgu gofynnol o hyd, ac fel rheol byddai'r arholiad neu'r asesiad yn cael ei ohirio tan

ddyddiad diweddarach (a allai effeithio ar ddilyniant y myfyriwr neu ddyddiad cwblhau'r cwrs);

- Dim ond caniatáu hunan-ardystio os yw'r myfyriwr yn gofyn am gael gohirio arholiad neu asesiad y mae wedi'i golli, neu os yw wedi mynd yn sâl yn ystod arholiad. Yn yr achosion hynny, gallai fod yna ofyniad bod y myfyriwr yn rhoi gwybod am ei salwch ar y pryd, er enghraifft trwy ffonio neu anfon e-bost at berson dynodedig neu i'r swyddfa ar y diwrnod, neu ddweud wrth y goruchwyliwr os yw'n cael ei daro'n wael, fel bod cofnod ohono;
- Peidio â chaniatáu hunan-ardystio os yw'r myfyriwr yn cwblhau'r arholiad neu asesiad, fel nad yw myfyrwyr yn hunan-ardystio oherwydd eu bod yn credu eu bod wedi perfformio'n wael, ond lle nad yw hyn yn gysylltiedig ag afiechyd neu amgylchiadau eraill;
- Peidio â chaniatáu hunan-ardystio pe bai angen i'r myfyriwr ail-wneud blwyddyn, neu ei fod yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol ynghylch canlyniad ei radd;
- Dim ond caniatáu ceisiadau hunan-ardystiedig ar gyfer rhai mathau o asesiad;
- Ymyrryd lle mae myfyriwr wedi gwneud ceisiadau hunan-ardystiedig dro ar ôl tro, er enghraifft gofyn iddo gwrdd â'i diwtor neu wasanaethau cymorth i drafod ei amgylchiadau cyn y derbynnir unrhyw geisiadau pellach;
- Darparu gwybodaeth glir am yr hyn a fydd yn digwydd os amheuir bod y myfyriwr yn camddefnyddio'r broses hunan-ardystio;
- Monitro ceisiadau er mwyn canfod a oes angen mynd i'r afael â materion diwylliannol mewnol, er enghraifft myfyrwyr sy'n defnyddio'r system ar gyfer gwasgaru asesiadau anodd.

## ASTUDIAETH ACHOS 6: Cyfyngu ar nifer y ceisiadau hunan-ardystiedig am ystyriaeth ychwanegol

Mae proses ystyriaeth ychwanegol darparydd yn caniatáu i fyfyrwyr hunan-ardystio am hyd at ddau asesiad mewn unrhyw flwyddyn. Collodd myfyriwr un arholiad yn nhymor yr Hydref ac un arholiad yn nhymor y Gwanwyn oherwydd afiechyd byr-dymor, a chyflwynodd geisiadau hunan-ardystiedig am ystyriaeth ychwanegol yn gofyn am ohirio'r arholiadau i'r cyfnod ail-sefyll. Derbyniodd y darparydd y ceisiadau hynny.

Yn ystod tymor yr Haf, cyflwynodd y myfyriwr gais hunan-ardystiedig yn gofyn am estyniad i derfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs. Esboniodd y darparydd i'r myfyriwr, oherwydd ei fod eisoes wedi hunan-ardystio ar gyfer dau asesiad yn nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn, y byddai angen iddo ddarparu tystiolaeth i ategu ei gais am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs yn ystod tymor yr Haf. Gofynnodd y darparydd hefyd i'r myfyriwr gwrdd â'i diwtor personol i drafod ei amgylchiadau. Nid oedd y myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth i ategu ei gais am estyniad, ac felly ni chaniataodd y darparydd i'w gais am ystyriaeth ychwanegol ar gyfer tymor yr Haf. Ond daeth y tiwtor personol i'r casgliad y byddai'r myfyriwr yn elwa o fwy o gymorth sgiliau astudio, ac felly fe'i cyfeiriwyd at dîm cymorth astudio'r darparydd.

**52.** Lle mae angen tystiolaeth feddygol i ategu cais am ystyriaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig ag iechyd, mae'n arfer da i ddarparwyr ystyried bod â ffurflen dempled y gall myfyrwyr ei chymryd at eu meddyg teulu neu ddarparydd gofal iechyd (neu y gall y meddyg teulu neu'r darparydd gofal iechyd ei lawrlwytho o wefan y darparydd). Mae hyn er mwyn i'r meddyg teulu neu'r darparydd gofal iechyd gael ei annog i roi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar y darparydd i ddod i benderfyniad ar achos y myfyriwr.

**53.** Yn achos ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig ag iechyd, dylai'r darparydd ganolbwyntio ar symptomau'r myfyriwr a'r effeithiau a gawsant ar ei berfformiad, yn hytrach na mynnu cael diagnosis wedi'i gadarnhau. Mae hyn oherwydd y gallai cyflwr y myfyriwr fod yn destun ymchwiliad o hyd, neu efallai ei fod yn aros i gael ei gyfeirio at arbenigwr.

**54.** Pan fydd y darparydd yn gwybod bod gan fyfyriwr gyflwr hir-dymor ond ansefydlog, ni ddylai fel arfer ofyn i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth feddygol bellach, bob tro y bydd y cyflwr yn amlygu ei hun, i ategu ei geisiadau am ystyriaeth ychwanegol.

## Tystiolaeth o brofedigaeth

**55.** Pan fydd myfyriwr wedi cael profedigaeth, gall fod yn ansensitif gofyn i'r myfyriwr am gopi o dystysgrif marwolaeth y person sydd wedi marw. Efallai y bydd yn anodd i'r myfyriwr gael copi, neu ei gael wedi'i gyfieithu. Lle mae angen tystiolaeth ategol o brofedigaeth, dylai darparwyr fel arfer fod yn barod i ystyried tystiolaeth o ffynonellau eraill, fel taflen trefn y gwasanaeth o angladd yr unigolyn, eitem yng ngholofn y marwolaethau mewn papur-newydd neu adroddiad newyddion, neu lythyr ategol gan diwtor personol y myfyriwr, aelod o'r teulu neu ffrind.

### ASTUDIAETH ACHOS 7: Tystiolaeth o brofedigaeth

Mae ffrind gorau myfyriwr yn marw mewn damwain car ddeuddydd cyn dechrau arholiadau'r myfyriwr. Mae'r myfyriwr yn gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol ond yn egluro na fydd yn gallu darparu copi o dystysgrif marwolaeth ei ffrind oherwydd na chaiff y rhain eu cyhoeddi ar unwaith yn eu gwlad enedigol, ac nid yw'r teimlo'n gyfforddus yn gofyn i rieni'r ffrind. Aeth y myfyriwr i weld ei diwtor personol yn fuan ar ôl marwolaeth ei ffrind ac roedd yn amlwg dan deimlad. Mae'r darparydd yn derbyn datganiad gan diwtor personol y myfyriwr fel tystiolaeth i ategu'r cais am ystyriaeth ychwanegol.

**56.** Mewn rhai achosion, gall y farwolaeth ynddi'i hun fod yn ddigon i'r darparydd dderbyn cais y myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol. Er enghraifft, os bydd brawd neu chwaer myfyriwr yn marw ychydig cyn arholiadau'r myfyriwr, dylai'r darparydd fel rheol dderbyn y bydd hyn wedi cael effaith ar y myfyriwr, heb ofyn iddo ddarparu tystiolaeth o'r effaith hwnnw. Ond os yw myfyriwr yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol oherwydd profedigaeth a ddigwyddodd beth amser yn ôl, gall fod yn rhesymol gofyn i'r myfyriwr am dystiolaeth o effaith barhaus y brofedigaeth honno arno.

## Tystiolaeth ôl-weithredol

**57.** Pan fydd angen i fyfyrwyr roi tystiolaeth i'w ddarparydd i ategu cais am ystyriaeth ychwanegol, dylai'r dystiolaeth honno ddyddio o'r amser y digwyddodd yr amgylchiadau. Mae'n rhesymol i ddarparwyr roi llai o ystyriaeth i dystiolaeth sy'n cynnwys, er enghraifft, meddyg teulu yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd y myfyriwr wrtho am gyflwr ei iechyd rai wythnosau ynghynt, er gwaethaf y ffaith nad oedd y myfyriwr wedi ymgynghori â'r meddyg teulu pan oedd yn sâl. Ond dylai darparwyr ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau unigol. Mae'n bosib bod y myfyriwr wedi'i chael hi'n anodd trefnu apwyntiad gyda'i feddyg teulu. Neu efallai ei fod wedi cael anhawster, am reswm da, wrth gael gafael ar dystiolaeth ategol ar yr adeg y digwyddodd yr amgylchiadau.

**58.** Mewn rhai achosion, mae'n bosib nad oedd y myfyriwr yn ymwybodol ei fod yn profi symptomau a oedd yn cael effaith ar ei berfformiad nes iddo gael diagnosis o gyflwr rywbryd yn ddiweddarach. Er enghraifft, efallai na fydd myfyriwr sy'n dioddef o iselder yn cydnabod ei fod yn profi symptomau nac yn ceisio triniaeth ar unwaith, neu efallai na fydd myfyriwr yn ymwybodol bod ganddo Anhawster Dysgu Penodol nes bod yr anhawster yn cael ei ganfod ar ôl i'r arholiadau ddod i ben. Dylai darparwyr edrych yn ofalus ar y rhesymau pam nad oedd y myfyriwr yn gallu cael gafael ar dystiolaeth ar yr adeg y digwyddodd yr amgylchiadau wrth ystyried ei achos.

# Polisïau "addasrwydd i sefyll arholiad"

**59.** Mae gan lawer o ddarparwyr bolisïau "addasrwydd i sefyll arholiad" sy'n nodi os yw myfyriwr yn mynychu arholiad neu'n cyflwyno gwaith cwrs, ei fod yn datgan ei fod yn addas i wneud hynny ac y dylai'r marc y mae'n ei gyflawni sefyll. Ni chaniateir iddynt wedyn ofyn am ystyriaeth ychwanegol yn ymwneud â'r asesiad hwnnw.

**60.** Fel rheol mae'n rhesymol i ddarparwyr roi'r cyfrifoldeb ar fyfyrwyr i benderfynu a yw eu hiechyd yn ddigon da i sefyll arholiad neu gyflwyno gwaith cwrs. Ond dylai'r darparydd esbonio'r polisi hwn yn glir i fyfyrwyr, a dylid eu hatgoffa ohono ar adegau perthnasol yn ystod y flwyddyn, er enghraifft cyn i'r arholiadau ddechrau.

**61.** Lle mae gan ddarparwyr bolisi "addasrwydd i sefyll arholiad", yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae'n arfer da derbyn datganiad gan fyfyriwr nad yw'n "ddigon da i sefyll arholiad", heb orfod cymeradwyo'r datganiad hwnnw. Os oes angen cymeradwyaeth, mae'n debygol y bydd hwn yn benderfyniad sy'n sensitif o ran amser y dylid ei wneud yn gyflym, ac yn ddelfrydol cyn i'r arholiadau gychwyn. Gall bod â phroses gymeradwyo sydd ond yn digwydd ar ôl i'r arholiadau ddod i ben annog myfyrwyr i sefyll arholiadau pan nad yw eu hiechyd yn ddigon da i wneud hynny. Mae'n bosib na fyddent am fentro colli'r arholiad pan fo posibilrwydd y gallai eu datganiad, nad ydynt yn "ddigon da i sefyll arholiad", gael ei wrthod.

## Tynnu datganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl

**62.** Er ei bod fel rheol yn rhesymol i ddarparwyr roi'r cyfrifoldeb ar fyfyrwyr i benderfynu a ydyn nhw'n ddigon da i gwblhau asesiadau, ni ddylid defnyddio polisïau "addasrwydd i sefyll" mewn ffordd gyffredinol. Mae'n arfer da caniatáu i fyfyrwyr dynnu datganiad "addasrwydd i sefyll" yn ôl mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os ydynt yn cael eu taro'n wael hanner ffordd trwy arholiad, neu lle'r oedd eu gallu i wneud penderfyniad ynghylch a oedden nhw'n ddigon da i sefyll yr arholiad wedi'i amharu am ryw reswm.

**63.** Efallai y bydd amgylchiadau eraill hefyd lle byddai'n rhesymol caniatáu i fyfyriwr dynnu datganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl. Mae'n bosib y bydd gan rai myfyrwyr resymau da dros roi cynnig ar yr arholiad neu gyflwyno'r gwaith, er eu bod yn gwybod eu bod yn sâl. Gallai enghreifftiau gynnwys myfyrwraig yn credu'n rhesymol na fyddai'n gallu sefyll yr arholiad ar y cyfle nesaf oherwydd ei bod yn feichiog, fod gan fyfyriwr gyflwr iechyd oedd yn dirywio, neu fod y myfyriwr yn cael anawsterau o ran ei fisa. Neu efallai oherwydd y byddai'r myfyriwr wedi wynebu amgylchiadau ariannol difrifol neu'n ymwneud â chyflogaeth pe bai wedi oedi cyn cwblhau ei gwrs.

**64.** Fel rheol byddai angen i fyfyriwr a oedd am dynnu ei ddatganiad "addasrwydd i sefyll" yn ôl wneud cais am ystyriaeth ychwanegol yn egluro pam. Fel arfer mae'n rhesymol i ddarparwyr ddisgwyl i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth i ategu cais i dynnu datganiad "addasrwydd i sefyll" yn ôl.

## ASTUDIAETH ACHOS 8: Tynnu datganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl

Mae gan ddarparydd bolisi "addasrwydd i sefyll arholiad" sy'n cael ei gyfleu'n glir i fyfyrwyr. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr lofnodi ffurflen ar ddechrau pob arholiad i gadarnhau eu bod yn ddigon da i sefyll. Mae myfyriwr yn mynychu ei arholiadau ac yn llofnodi'r ffurflen "addasrwydd i sefyll". Fodd bynnag, mae ffrindiau'r myfyriwr yn poeni'n fawr am ei iechyd meddwl. Maent yn annog y myfyriwr i fynd i weld ei feddyg teulu yn fuan ar ôl i'r arholiadau ddod i ben. Dywed y meddyg teulu fod y myfyriwr yn dioddef o iselder, sydd wedi bod yn effeithio arno ers sawl mis yn ôl pob tebyg. Mae'r meddyg teulu yn rhoi presgripsiwn i'r myfyriwr ar gyfer meddyginiaeth ac yn ei gyfeirio at gwnselydd. Mae'r meddyg teulu yn darparu llythyr yn dweud bod yr iselder wedi amharu ar allu'r myfyriwr i wneud penderyfniadau rhesymol ynghylch ei astudiaethau.

Mae'r darparydd yn caniatáu i'r myfyriwr dynnu ei ddatganiad "addasrwydd i sefyll arholiad" yn ôl ac yn caniatáu iddo sefyll ei arholiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel pe bai yn ymdrech gyntaf.

# Anabledd a cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol

## Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**65.** Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth, meini prawf neu arfer heblaw safon cymhwysedd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio safon cymhwysedd fel "safon academaidd, feddygol neu safon arall a ddefnyddir at ddibenion penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu".

**66.** Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan berson anabledd os oes ganddo ef / hi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hir-dymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd. Caiff unrhyw un sydd â HIV, cancr neu sglerosis ymledol ei drin yn awtomatig fel rhywun anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**67.** Rhaid i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyriwr pan fyddant yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn gwybod, bod y myfyriwr yn anabl. Mae enghreifftiau o addasiadau rhesymol y gallai darparwyr eu gwneud i'r amgylchedd dysgu a dulliau asesu yn cynnwys:

- Newidiadau i'r amgylchedd, adeiladau a.y.b. i wella mynediad at gyfleusterau.
- Darparu neu ganiatáu i'r myfyriwr ddefnyddio offer neu dechnoleg gynorthwyol;
- Addasiadau i ddysgu ac addysgu, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn sawl fformat;
- Addasiadau i arholiadau ac asesiadau ymarferol, er enghraifft caniatáu amser ychwanegol, seibiannau ar gyfer gorffwys, sefyll yr arholiad mewn ystafell ar wahân, defnyddio cyfrifiadur i deipio atebion neu ddefnyddio ysgrifennydd;
- Estyniad i derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs;
- Dulliau asesu amgen.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer Rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl.

**68.** Dylai addasiadau rhesymol sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu dysgu a chael eu hasesu ar yr un telerau â'u cyfoedion. Pan fydd darparydd wedi gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyriwr anabl, ni ddylai fod yn angenrheidiol fel rheol i'r myfyriwr ddefnyddio'r broses ar gyfer gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol oni bai:

- Bod eu cyflwr yn gwaethygu'n sydyn neu'n dirywio, gan olygu nad oedd yr addasiadau bellach yn ddigonol ar gyfer eu hanghenion;
- Bod diffyg neu fethiant yn yr addasiadau, neu fod yr addasiadau heb gael eu gweithredu mewn pryd; neu
- Cawsant anawsterau nad oeddent yn gysylltiedig â'u hanabledd.

## Addasiadau rhesymol i'r broses ystyriaeth ychwanegol

**69.** Dylai darparwyr ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol gan fyfyrwyr anabl yn y ffordd arferol. Ond dylai darparwyr sicrhau bod y broses yn hygyrch i fyfyrwyr anabl. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol y gallai fod angen gwneud addasiadau rhesymol i'r broses ei hun, er enghraifft caniatáu estyniad i wneud cais os yw'r myfyriwr yn ei chael hi'n anodd gweithio o fewn terfynau amser oherwydd ei anabledd.

**70.** Mae'n arfer da bod y gweithdrefnau ar gyfer ystyriaeth ychwanegol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig yn cyfeirio myfyrwyr at staff cymorth anabledd y darparydd, yn ogystal â gwasanaethau cymorth eraill. Mae hefyd yn arfer da i ffurflenni cais am ystyriaeth ychwanegol ofyn i fyfyrwyr a oes angen iddynt wneud addasiadau rhesymol i'r broses ei hun.

### ASTUDIAETH ACHOS 9: Cyflwyno'n hwyr ac anabledd

Mae gan fyfyriwr anawsterau iechyd meddwl ac mae'n derbyn cymorth gan staff cymorth anabledd y darparydd. Mae'r myfyriwr yn cyflwyno cais am ystyriaeth ychwanegol ar y sail ei fod wedi methu â sefyll ei arholiadau oherwydd cyflwr iechyd meddwl parhaus. Mae'n cyflwyno'r cais yn hwyr. Dywed y myfyriwr fod hyn oherwydd ei fod yn cael anhawster gweithio o fewn terfynau amser y sgil ei anabledd, ac mae'r staff cymorth anabledd yn ategu hyn.

Mae'r darparydd yn ystyried a yw ei weithdrefnau ar gyfer ystyriaeth ychwanegol yn gosod y myfyriwr o dan anfantais oherwydd ei anabledd, ac a fyddai'n rhesymol addasu'r gweithdrefnau, er enghraifft trwy ymestyn y terfyn amser, er mwyn cael gwared ar yr anfantais honno.

## Amodau ansefydlog

**71.** Mae'n arfer da i ddarparwyr adolygu eu trefniadau cymorth ar gyfer myfyrwyr anabl yn rheolaidd. Mae'n arbennig o bwysig os oes gan y myfyriwr gyflwr cronig, ansefydlog i ganfod a oes angen mwy o addasiadau, neu addasiadau gwahanol, i gynorthwyo ei ddysgu pan fydd yn dioddef pwl sydyn o'r cyflwr. Ond dylai'r myfyriwr allu gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol os yw'n credu bod ei berfformiad wedi'i effeithio oherwydd nad oedd y cymorth wedi gweithio iddo. Ni ddylai'r darparydd ofyn i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth feddygol bob tro mae'n cael pwl sydyn o'r cyflwr. Mewn llawer o achosion, ni fydd angen ymyriad meddygol ar fyfyriwr os yw'n cael pwl sydyn, er bod ei symptomau'n wanychol.

### ASTUDIAETH ACHOS 10: Amodau ansefydlog

Mae gan fyfyriwr arthritis rhiwmatoid. Mae'n aml yn dioddef pyliau difrifol, sy'n eithriadol o boenus ac yn para am ddau neu dri diwrnod. Yn ystod y pyliau hyn, nid yw'n gallu ysgrifennu na theipio.

Mae'r darparydd yn cytuno iddo gael estyniadau i derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs pan fydd pyliau o'r fath yn effeithio ar ei allu i weithio. Maent yn addasu eu prosesau arferol ar gyfer ystyriaeth ychwanegol, fel nad yw'n ofynnol iddo gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i gyflwr bob tro y mae angen estyniad arno.

## Datgelu anabledd trwy gyflwyno sawl cais am ystyriaeth ychwanegol

**72.** Mae'n bwysig bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses ystyriaeth ychwanegol yn cadw llygad am fyfyrwyr y gallai eu hamgylchiadau fod yn arwydd o anabledd sylfaenol sydd heb ei ddatgelu, hyd yn oed os nad yw'r myfyriwr wedi cyfeirio at gyflwr ei iechyd yn y termau hynny. Dylai darparwyr sicrhau bod yr aelodau staff hynny'n derbyn hyfforddiant i'w galluogi i sylwi pryd mae myfyriwr (neu y gallai fod) yn datgelu ei fod yn anabl, a dylai fod ganddynt fynediad at gyngor ynglŵn â beth i'w wneud yn yr amgylchiadau hynny.

**73.** Os bydd myfyriwr yn gwneud sawl cais am ystyriaeth ychwanegol yn ymwneud â'r un cyflwr iechyd dros gyfnod o amser, gallai hynny fod yn arwydd y gallai'r myfyriwr fod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, os bydd myfyriwr yn gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol yn ymwneud â HIV, cancr neu sglerosis ymledol, dylai'r darparydd fod yn ymwybodol ei fod yn debygol o fod yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylai darparwyr felly fod â phroses ar waith i ddynodi a chynnig cymorth i fyfyrwyr yn yr achosion hynny. Yn ogystal â rhoi sylw i'r cais am ystyriaeth ychwanegol, bydd hyn fel arfer yn golygu cyfeirio'r myfyriwr at staff cymorth anabledd y darparydd ar gyfer asesiad fel y gellir ystyried addasiadau rhesymol.

### ASTUDIAETH ACHOS 11: Ceisiadau niferus am ystyriaeth ychwanegol a datgelu anabledd

Mae myfyriwr yn gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol ar gyfer ei arholiadau blwyddyn gyntaf oherwydd iselder a gorbryder. Mae'n darparu llythyr gan ei feddyg teulu yn dweud ei fod wedi bod â symptomau ers rhai misoedd, wedi'u sbarduno gan amgylchiadau anodd gartref. Mae'r darparydd yn derbyn y cais. Mae'r myfyriwr yn gwneud cais arall yn ystod ei ail flwyddyn, eto'n ymwneud ag iselder a gorbryder, ac yn darparu llythyr pellach gan ei feddyg teulu yn dweud bod ei symptomau wedi parhau ac wedi dirywio ers y flwyddyn gyntaf. Mae'r darparydd yn derbyn y cais.

Er nad yw'r myfyriwr wedi datgelu'n ffurfiol ei fod yn anabl nac wedi cofrestru gyda staff cymorth anabledd y darparydd, mae'r darparydd yn ymwybodol y gallai iselder a gorbryder y myfyriwr gael ei ystyried fel anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, o ystyried difrifoldeb y cyflwr, a'r ffaith ei fod yn barhaus. Mae'r darparydd yn cyfeirio'r myfyriwr at eu staff cymorth anabledd ar gyfer asesiad, fel y gellir ystyried gwneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo ei astudiaethau.

# Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a gofynion presenoldeb

**74.** Weithiau, mae'n rhaid i fyfyrwyr fodloni gofyniad presenoldeb ar gyfer y cwrs, naill ai oherwydd bod eu cwrs yn gwneud hynny'n ofynnol (er enghraifft, oherwydd ei fod yn gwrs gradd ar gyfer ennill cymhwyster proffesiynol), neu i fodloni amodau eu fisa. Os yw amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn effeithio ar allu myfyriwr i fod yn bresennol, gall ddweud wrth ei ddarparydd trwy wneud cais am ystyriaeth ychwanegol, oni bai bod gweithdrefn ar wahân ar gyfer gwneud hynny.

**75.** Fel yn y mwyafrif o weithleoedd, fel rheol dylid caniatáu i fyfyrwyr hysbysu'r adran am eu habsenoldebau eu hunain a hunan-ardystio cyfnodau byr o salwch sy'n effeithio ar eu presenoldeb. Ond mae'n arfer da i'r darparydd osod terfyn ar nifer y diwrnodau y gall myfyriwr fel arfer ardystio absenoldeb ar eu cyfer, ac ar ôl hynny mae'n bosib y bydd gofyn i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth, neu bydd gofyn iddo drafod ei amgylchiadau gydag aelod o staff. Os yw myfyriwr yn aml yn absennol, efallai bod yna amgylchiadau sylfaenol wrth wraidd hynny, a bod angen cymorth ychwanegol arno; neu efallai y bydd angen iddo gymryd peth amser i ffwrdd o'i astudiaethau neu gael ei gyfeirio at broses cymorth i astudio'r darparydd. Mae Atodlen 1 yn rhoi arweiniad ar brosesau cymorth i astudio.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a beichiogrwydd

**76.** Mae'n arfer da i ddarparwyr fod â pholisi mamolaeth sy'n nodi pa drefniadau a wneir pan fydd myfyrwraig yn datgelu ei bod yn feichiog. Mae'n arfer da (ac yn hanfodol mewn rhai achosion) i'r darparydd gynnal asesiad risg i asesu a oes angen gwneud newidiadau i astudiaethau'r fyfyrwraig am resymau iechyd a diogelwch. Er enghraifft, gall fod asesiadau ymarferol na ddylai'r fyfyrwraig ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn cynnwys dod i gysylltiad â chemegau a allai fod yn niweidiol yn ystod beichiogrwydd, ac mewn achos o'r fath byddai angen i'r darparydd wneud trefniadau amgen.

**77.** Yn gyffredinol, ni ddylai fod angen i fyfyrwyr sy'n feichiog ddefnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol oni bai eu bod yn wael eu hiechyd neu'n profi cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'u beichiogrwydd. Ond mae'n bosib y bydd angen i'r darparydd addasu arholiadau neu asesiadau'r fyfyrwraig os ydynt yn agos at y dyddiad y disgwylir i'r babi gael ei eni, er enghraifft trwy ganiatáu seibiannau gorffwys, neu efallai y bydd angen iddynt ohirio'r arholiadau os ydynt i fod i gael eu cynnal pan fydd y fyfyrwraig ar gyfnod absenoldeb mamolaeth. Dylai'r darparydd drafod y trefniadau gyda'r fyfyrwraig sydd dan sylw.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a gwaith grŵp

**78.** Mae llawer o raglenni gradd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ymgymryd ag asesiadau gwaith grŵp, fel prosiectau grŵp neu gyflwyniadau grŵp. Dylai myfyrwyr fod yn gallu defnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol os yw'r grŵp cyfan, er enghraifft, wedi ei effeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth, neu os yw aelod unigol o'r grŵp yn profi anawsterau, ac o'r herwydd yn methu â chyfrannu'n effeithiol. Yn achos materion sy'n effeithio ar y grŵp cyfan, gall y darparydd ganiatáu i'r grŵp gyflwyno un cais am ystyriaeth ychwanegol sy'n berthnasol i bob myfyriwr yn y grŵp.

**79.** Bydd angen i ddarparwyr ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol sy'n ymwneud â gwaith grŵp ar sail eu ffeithiau unigol. Bydd y deilliannau'n amrywio yn dibynnu ar natur yr asesiad ac a yw'r amgylchiadau wedi effeithio ar y grŵp cyfan neu fyfyriwr unigol yn y grŵp. Er enghraifft, lle mae'r amgylchiadau wedi effeithio ar y grŵp cyfan, gall fod yn rhesymol cytuno ar estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith neu ohirio'r asesiad ar gyfer holl aelodau'r grŵp tan ddyddiad diweddarach. Lle mae'r amgylchiadau wedi effeithio ar fyfyriwr unigol o fewn y grŵp, gall fod yn rhesymol caniatáu i'r myfyriwr gwblhau aseiniad unigol yn lle'r gwaith grŵp neu i roi trefniadau addas eraill ar waith. Gall hefyd fod angen addasu'r asesiad ar gyfer aelodau eraill y grŵp. Pan fo'r amgylchiadau wedi effeithio ar fyfyriwr unigol, dylai'r darparydd gadw manylion yr amgylchiadau hynny yn gyfrinachol i'r myfyriwr dan sylw.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

**80.** Mae'r canllawiau a nodir yn yr Adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn berthnasol i geisiadau am ystyriaeth ychwanegol gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn yr un modd â cheisiadau gan fyfyrwyr a addysgir. Mae'n bosib y bydd angen i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ddefnyddio'r broses i ofyn am ystyriaeth ychwanegol mewn perthynas ag asesiadau cyfamserol (megis adolygiadau cynnydd blynyddol neu drosglwyddo / uwchraddio i PhD), i ofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil, neu yn achos eu viva.

**81.** Dylid cyfleu manylion y broses ar gyfer gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol yn glir i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, er enghraifft mewn llawlyfrau myfyrwyr ymchwil ac ar wefan y darparydd. Oherwydd nad yw myfyrwyr ymchwil fel arfer yn sefyll arholiadau ysgrifenedig ac efallai eu bod yn dilyn strwythur blwyddyn academaidd wahanol i fyfyrwyr a addysgir, mae'n bosib na fyddant yn gweld nodiadau atgoffa cyffredinol am y broses sydd i'w dilyn. Mae'n arfer da, felly, tynnu sylw myfyrwyr ymchwil at y broses ar wahân, ar adegau allweddol yn eu hastudiaethau. Dylai'r rhai sy'n ystyried gwneud cais feddu ar ddealltwriaeth dda o reoliadau'r darparydd ynghylch myfyrwyr ymchwil, gan gynnwys amserlenni a chamau dilyniant allweddol, yn ogystal â natur astudio ac asesu ar lefel gradd ymchwil. Dylai goruchwylwyr a'r rhai sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr ymchwil wybod am y broses ar gyfer gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a lleoliadau gwaith

**82.** Mae llawer o fyfyrwyr yn mynd ar leoliadau gwaith fel rhan o'u cwrs, er enghraifft at ddibenion hyfforddiant ymarferol ar radd sy'n darparu cymhwyster proffesiynol, ar gyfer profiad diwydiannol, neu i astudio dramor. Yn dibynnu ar y lleoliad, mae'n bosib y bydd prosesau ar wahân i fyfyrwyr roi gwybod am absenoldeb neu amgylchiadau sy'n effeithio ar eu perfformiad, ac efallai y bydd angen iddynt hysbysu darparydd y lleoliad a'r darparydd addysg uwch. Dylai darparwyr addysg uwch esbonio'r broses i fyfyrwyr cyn i'r lleoliad gwaith ddechrau.

**83.** Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn deall unrhyw safonau proffesiynol a allai fod yn berthnasol i'r lleoliad. Er enghraifft, gall myfyrwyr sydd ag annwyd cyffredin fod yn ddigon da i astudio, ond ni chaniateir iddynt dreulio amser ar ward ysbyty gyda chleifion bregus. Mae hefyd yn bosib y bydd gan leoliadau gwaith brosesau llymach ar gyfer rhoi gwybod yn brydlon am absenoldeb.

**84.** Gall gofynion proffesiynol cwrs effeithio ar sut mae darparydd yn ymdrin â cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol, a dylid egluro hynny i fyfyrwyr. Weithiau, mae'n ofynnol bod myfyrwyr yn cwblhau nifer benodol o ddyddiau mewn lleoliad gwaith, ac yn yr achosion hynny mae angen i'r darparydd esbonio i fyfyrwyr a oes modd ymestyn y cyfnod ar leoliad, neu a fydd angen trefnu lleoliad newydd.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill

**85.** Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn cynnig cyfleoedd dysgu ar y cyd ag un neu fwy o ddarparwyr neu sefydliadau dyfarnu eraill, yn y DU neu dramor. Rydym ni wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar gyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill i ddarparwyr eu hystyried wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yng nghyd-destun y trefniadau hyn.

**86.** Pan fydd darparwyr yn darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill, y trefniant mwyaf cyffredin yw partneriaeth rhwng un darparydd sy'n dyfarnu'r radd ac un arall sy'n cyflwyno'r addysgu. Dylai'r cytundeb rhwng y darparwyr amlinellu eu cyfrifoldebau unigol, gan gynnwys pa ddarparydd sy'n gyfrifol am ystyried ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol. Yn gyffredinol, mae'r darparydd dyfarnu yn gyfrifol am sicrhau bod ei gyfrifoldebau ei hun, a rolau'r darparydd / darparwyr y mae'n gweithio gyda nhw, wedi'u cyhoeddi'n amlwg. Mae'r darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster hefyd yn gyfrifol, ar y cyfan, am sicrhau bod gan fyfyrwyr sy'n astudio yn y darparydd sy'n cyflwyno'r addysgu wybodaeth glir am y broses ar gyfer gwneud cais am ystyriaeth ychwanegol, a'r llwybr cychwynnol ar gyfer gwneud apêl academaidd. Dylai darparwyr dyfarnu felly weithio gyda'u darparwyr cyflwyno i sicrhau bod y gweithdrefnau perthnasol yn cael eu cyfleu'n glir i fyfyrwyr a staff. Dylai darparwyr dyfarnu hefyd weithio gyda'u darparwyr cyflwyno i sicrhau cysondeb o ran eu dull o ymdrin â cheisiadau am ystyriaeth ychwanegol, yn enwedig lle mae'r trefniant yn cynnwys partneriaid mewn gwahanol wledydd.

**87.** Fel rheol bydd cyswllt y myfyriwr o ddydd i ddydd gyda'r darparydd sy'n cyflwyno'r addysgu lle mae'n astudio. Os yw'r myfyriwr yn gofyn am rywbeth syml fel estyniad byr i derfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs, gallai hynny fod yn rhywbeth y gall y darparydd cyflwyno ddelio ag ef.

**88.** Fodd bynnag, gan mai'r darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am ansawdd a safonau ei ddyfarniadau, gall fod yn angenrheidiol i'r darparydd cyflwyno wneud adroddiad ar ddeilliannau ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol i'r darparydd dyfarnu – neu gyfeirio achosion at y darparydd dyfarnu lle mae angen i ddeilliannau academaidd gael eu hystyried gan y bwrdd arholi perthnasol. Dylid gwneud hyn yn glir yn y gweithdrefnau. Fel rheol, dylai fod gan fyfyrwyr hawl derfynol i apelio i'r darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster os ydyn nhw'n anhapus ynghylch penderfyniad a wnaed ynghylch eu cais am ystyriaeth ychwanegol, er enghraifft trwy'r weithdrefn apeliadau academaidd.

## Ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol a phrentisiaethau

**89.** Mae prentisiaeth yn swydd gyda hyfforddiant i safonau cydnabyddedig y diwydiant. Mae trefniadau ar gyfer cyflwyno ac asesu prentisiaethau uwch a phrentisiaethau gradd yn seiliedig ar gytundebau rhwng y darparydd addysg uwch, y cyflogwr a rhanddeiliaid perthnasol eraill, a gallant fod yn gymhleth.

**90.** Yn unol â Chod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU, mae darparydd addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau yn y DU yn gyfrifol am ansawdd a safonau academaidd y cymwysterau y mae'n eu dyfarnu, beth bynnag yw'r trefniant cytundebol gyda'r cyflogwr neu gyda phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r cynllun prentisiaeth.

**91.** Efallai y bydd angen i brentisiaid ddilyn proses benodol i roi gwybod am absenoldeb neu amgylchiadau sy'n effeithio ar eu perfformiad. Dylai'r broses gael ei chyfleu'n glir i brentisiaid, a dylai ddilyn yr egwyddorion eang a nodir yn yr Adran hon o'r Fframwaith Arfer Da. Gan fod prentisiaid yn fyfyrwyr gyda'r darparydd addysg uwch, dylent fod yn gallu cael mynediad i weithdrefn apeliadau academaidd neu gwynion y darparydd os ydyn nhw'n anhapus â phenderfyniadau a wnaed ynghylch amgylchiadau sy'n effeithio ar eu perfformiad.

# Deilliannau ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol

**92.** Y man cychwyn yw y dylai pob myfyriwr gael cyfle teg i ddangos yr hyn y gallant ei gyflawni. Os na chânt y cyfle hwnnw oherwydd bod rhywbeth wedi digwydd iddynt ar y foment anghywir, yna dylent fel rheol gael cyfle arall yn yr asesiad neu gael eu hamgylchiadau wedi'u hystyried mewn rhyw ffordd arall. Rhaid cydbwyso hynny â'r angen am gynnal safonau academaidd.

**93.** Yr angen am gynnal safonau academaidd yw pam nad yw'n arfer da ar y cyfan codi marciau unigolyn mewn ymateb i gais am ystyriaeth ychwanegol - er enghraifft, rhoi deg marc ychwanegol am brofedigaeth - oherwydd nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r myfyriwr wedi cyflawni'r marciau hynny pe na bai newid wedi bod yn ei amgylchiadau. Dylai marciau, fel rheol, fod yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflawniad gwirioneddol y myfyriwr.

**94.** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn deg cynnig cyfle arall i'r myfyriwr ar yr asesiad yr effeithiwyd arno, naill ai am farc heb ei gapio (os bu i'r amgylchiadau effeithio ar ei ymgais gyntaf) neu am farc wedi'i gapio (os oedd yr amgylchiadau wedi effeithio ar ail-sefyll). Ond gall darparwyr ystyried deilliannau eraill a fyddai'n deg i'r myfyriwr, ond fyddai hefyd yn cynnal safonau academaidd.

**95.** Pan gaiff myfyriwr gynnig ymgais arall ar yr asesiad yr effeithiwyd arno, mae'n bosib y bydd angen i'r darparydd osod math arall o asesiad, oherwydd nad yw'n bosibl ail-wneud yr asesiad yr effeithiwyd arno. Er enghraifft, efallai y bydd yn rhaid i fyfyriwr a gollodd gyfle am aseiniad gwaith grŵp ar ei ymgais gyntaf wneud aseiniad wahanol ar eu hymgais nesaf, oherwydd bod y myfyrwyr eraill a oedd yn gwneud yr aseiniad gwaith grŵp eisoes wedi'i gwblhau. Dylai manylion ynghylch sut y bydd gwaith yn cael ei asesu a'i ail-asesu gael eu cynnwys yn y dogfennau cwrs perthnasol.

**96.** Mae'n arfer da i ddarparwyr roi enghreifftiau o ddeilliannau y gellid eu disgwyl yn eu gweithdrefnau, ac enghreifftiau o ddeilliannau nad ydynt yn debygol o ddigwydd. Ond dylai darparwyr ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau unigol.

## Enghreifftiau o ddeilliannau

**97.** Y darparydd sydd i benderfynu pa ddeilliannau i'w rhoi ar waith pan fydd yn caniatáu cais am ystyriaeth ychwanegol, gan ystyried amgylchiadau'r achos (gan gynnwys lefel yr astudiaeth a'r cam y mae'r myfyriwr wedi'i gyrraedd), y rheoliadau sy'n berthnasol i raglen radd y myfyriwr (gan gynnwys unrhyw ofynion gan gyrff proffesiynol), a'r angen am gynnal safonau academaidd. Mae'r deilliannau mwyaf cyffredin yn debygol o gynnwys:

- Caniatáu estyniad i derfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs neu ddileu cosb am ei gyflwyno'n hwyr;
- Gohirio arholiadau neu asesiadau eraill, fel y gall y myfyriwr ddangos gwir lefel ei berfformiad pan nad yw'r amgylchiadau problemus yn effeithio arno mwyach;
- Caniatáu i'r myfyriwr ail-wneud y flwyddyn neu fodiwlau / unedau unigol;
- Gosod math arall o asesiad neu roi arholiad llafar i'r myfyriwr.

**98.** Ond efallai y byddai'n briodol ystyried deilliannau eraill i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle iawn i ddangos eu perfformiad. Mae'n bosib i farcio hael danseilio safonau academaidd, a gall fod yn ffactor mewn chwyddiant o ran graddau, ond os gwneir hyn yn ofalus gall fod yn ffordd ddefnyddiol o gydnabod amgylchiadau unigol myfyriwr ac asesiadau penodol yr effeithiwyd arnynt. Mae'n bosib y bydd rhai darparwyr yn caniatáu gwahanol ddeilliannau, yn dibynnu ar ba flwyddyn y mae cais y myfyriwr yn perthyn iddi, p'un a yw'r modiwl dan sylw yn greiddiol neu'n orfodol, a faint o gredydau sydd dan sylw. Gallai'r deilliannau eraill hyn gynnwys:

- Diystyru marc ar gyfer asesiad unigol wrth benderfynu ar ganlyniad cyffredinol y myfyriwr ar gyfer y modiwl neu'r uned;
- Diystyru marc ar gyfer modiwl neu uned unigol wrth benderfynu ar ddilyniant myfyriwr neu ganlyniad cyffredinol ei radd;
- Amnewid marciau ar gyfer asesiadau cyfatebol yn lle'r asesiad yr effeithiwyd arno;
- Caniatáu i arholwyr roi mwy o bwys ar farciau nad oedd amgylchiadau'r myfyriwr wedi effeithio arnynt;
- Penderfynu bod meini prawf ar gyfer dilyniant wedi'u diwallu lle mae'r bwlch rhwng llwyddo a methu'n fain iawn;
- Gwneud dyfarniad arbennig yn achos myfyriwr sydd wedi mynd yn rhy sâl i barhau â'i astudiaethau (dyfarniad Aegrotat).

**99.** Wrth ystyried deilliannau, dylai darparwyr fod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau lle gallai agwedd wahanol fod yn angenrheidiol. Er enghraifft, efallai na fydd gohirio arholiad i'r cyfnod ail-sefyll o fudd i fyfyriwr sydd wedi colli sesiynau addysgu neu ddosbarthiadau ymarferol yn gynharach yn y flwyddyn. Yn hytrach, mae'n bosib y bydd angen i'r myfyriwr ail-wneud y modiwl neu'r uned, er mwyn cael cyfle i ddal i fyny ar yr hyn y maent wedi'i golli. Neu mae'n bosib y gallai myfyriwr golli cynnig swydd os bydd yn rhaid iddo ohirio arholiad i'r flwyddyn ganlynol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ddarparwyr addasu'r deilliannau arferol i atal anfantais i fyfyriwr anabl. Er enghraifft: os mai'r deilliant arferol i fyfyriwr a fethodd waith cwrs ar ei ymgais gyntaf yw sefyll arholiad yn y cyfnod ail-sefyll, gallai hyn roi myfyriwr anabl, sy'n ei chael hi'n anodd sefyll arholiadau, dan anfantais. Dylai darparwyr sicrhau bod y deilliant yn briodol ar gyfer amgylchiadau unigol y myfyriwr.

## ASTUDIAETH ACHOS 12: Cynnig deilliannau anghyffredin

Cafodd myfyrwraig feichiog gymhlethdodau â'i beichiogrwydd ac o ganlyniad, nid oedd yn bosib iddi sefyll un o'i harholiadau blwyddyn olaf. Fel rheol, pan fydd myfyriwr yn methu sefyll arholiad oherwydd salwch, mae'r darparydd yn gohirio'r arholiad i'r cyfnod ail-sefyll, fel y gall y myfyriwr ddangos lefel ei berfformiad pan nad yw'r amgylchiadau hynny'n effeithio arno mwyach. Fodd bynnag, roedd y cyfnod ail-sefyll yn agos iawn at y dyddiad pan oedd disgwyl i'r babi gael ei eni, ac nid oedd y fyfyrwraig eisiau gohirio ei arholiad (na gohirio cwblhau ei gradd) tan y flwyddyn ganlynol. Roedd yr arholiad a gollwyd yn cyfrif am 30% o farc cyffredinol y modiwl yr effeithiwyd arno. Roedd y 70% arall yn seiliedig ar waith cwrs yr oedd y fyfyrwraig wedi'i gwblhau yn gynharach yn y flwyddyn. Yn hytrach na gohirio'r arholiad a gollwyd, trefnodd y darparydd i'r fyfyrwraig wneud arholiad llafar cyn dechrau'r cyfnod ail-sefyll, er mwyn ei galluogi i gyflawni holl ddeilliannau dysgu'r modiwl cyn i'r babi gyrraedd. Llwyddodd y fyfyrwraig i basio'r arholiad llafar a dyfarnodd y darparydd ei gradd iddi hi.

**100.** Mewn rhai achosion, gall darparwyr dderbyn bod myfyrwyr wedi profi amgylchiadau anodd, ond yn penderfynu nad yw'r amgylchiadau hynny wedi cael unrhyw effaith amlwg ar eu perfformiad academaidd, ac felly'n gwrthod y cais am ystyriaeth ychwanegol. Gall darparwyr hefyd wrthod ceisiadau lle nad yw amgylchiadau'r myfyrwyr yn ddigon i'w darbwyllo, neu lle maent wedi gwneud eu cais yn hwyr heb unrhyw reswm da dros yr oedi.

**101.** Ond ni ddylai darparwyr fel arfer wrthod cais am ystyriaeth ychwanegol dim ond oherwydd bod y myfyriwr wedi pasio'r asesiad sydd dan sylw. Efallai bod y myfyriwr wedi pasio, ond gallai ei farc fod yn sylweddol anghyson â'i berfformiad mewn asesiadau eraill neu'r hyn y gallai'n rhesymol fod wedi disgwyl ei gyflawni. Os yw'r darparydd yn derbyn bod perfformiad academaidd myfyriwr wedi cael ei effeithio gan ei amgylchiadau, yna pryd bynnag y bo hynny'n bosib, dylid gwneud rhywbeth i unioni'r sefyllfa.

**102.** Fel rheol, byddai hynny'n golygu cynnig cyfle i'r myfyriwr roi ymgais arall ar yr asesiad yr effeithiwyd arno, neu gynnig rhoi ystyriaeth i'w amgylchiadau mewn ffordd arall. Os yw'r darparydd yn cynnig cyfle i'r myfyriwr roi ymgais arall ar yr asesiad ond ei fod am gadw'r marc pasio y mae eisoes wedi'i gyflawni, dylai'r darparydd gofnodi'r ffaith fod y myfyriwr wedi dewis cadw'r marc perthnasol yn hytrach na chymryd yr asesiad eto. Dylai'r darparydd esbonio, ar ôl dewis cadw'r marc, a ellir rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i achos y myfyriwr yn nes ymlaen.

**103.** Nid yw'n arfer da gosod terfyn absoliwt ar y nifer o weithiau y gall myfyriwr ofyn am ystyriaeth ychwanegol ar gyfer arholiad neu asesiad. Dylai darparwyr ystyried pob cais ar sail ei ffeithiau unigol. Yn yr un modd, ni ddylai darparwyr fel arfer wrthod cais am ystyriaeth ychwanegol dim ond oherwydd bod y myfyriwr eisoes wedi cael y nifer uchaf o ymdrechion a ganiateir o dan ei reoliadau ar gyfer arholiad neu asesiad, neu wedi cyrraedd terfyn y cyfnod cofrestru arferol ar gyfer ei gwrs. Efallai y bydd yn briodol o hyd, er enghraifft, cynnig ymgais arall i'r myfyriwr pe bai ei amgylchiadau wedi effeithio ar ei berfformiad.

**104.** Mewn amgylchiadau eithriadol, fodd bynnag, gall fod achosion lle mae darparydd yn derbyn bod sefyllfa myfyriwr yn ddigon i'w ddarbwyllo, ond mae'n penderfynu peidio â chaniatáu ei gais am ystyriaeth ychwanegol oherwydd nad yw'n credu bod ganddo obaith realistig o gwblhau ei gwrs. Efallai bod y myfyriwr eisoes wedi gwneud sawl ymgais i basio'r asesiadau ond heb ennill unrhyw gredydau na gwneud unrhyw gynnydd yn academaidd, gyda'r holl opsiynau cymorth rhesymol ar waith. Mae'n bosib bod y myfyriwr wedi cyrraedd terfyn y cyfnod cofrestru arferol ar gyfer ei gwrs neu efallai na fydd ganddo, ym marn academaidd y darparydd, unrhyw obaith rhesymol o gwblhau'r cwrs o fewn yr amserlen honno (nac yn debygol o'i gwblhau os caniateir mwy o amser) o ystyried faint o gynnydd a wnaed hyd yn hyn. Yn y pen draw, mewn achosion o'r fath, gall fod yn annheg caniatáu i'r myfyriwr barhau â'i gwrs pan nad oes gobaith rhesymol o'i gwblhau. Dylai darparwyr ystyried achosion o'r fath yn ofalus ac yn sensitif.

**105.** Dylid cyfleu deilliannau ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol i fyfyrwyr yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad ac unrhyw gamau nesaf. Nid oes rhaid i'r rhesymau fod yn hirfaith, ond dylent gynnwys digon o fanylion i alluogi'r myfyriwr i ddeall pam y gwnaed y penderfyniad. Dylai'r hysbysiad o'r deilliannau hefyd roi gwybodaeth am (a) hawl y myfyriwr i apelio; (b) ar ba sail y gallant apelio; (c) y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl; ac (ch) ble a sut i gael gafael ar gymorth.

## Cadw marciau

**106.** Pan gynigir ymgais arall i fyfyriwr ar gyfer asesiad oherwydd bod ei gais am ystyriaeth ychwanegol wedi'i ganiatáu, dylai'r darparydd egluro beth fydd yn digwydd os yw'n cyflawni marc is ar ei ymgais nesaf. Dylai gweithdrefnau'r darparydd esbonio a fydd marc gwreiddiol y myfyriwr yn cael ei dynnu o'i gofnod ac felly ni fydd yn cyfrif mwyach, hyd yn oed os yw'r marc mae'n ei gael ar ei ymgais nesaf yn is, neu a fydd y myfyriwr yn cadw'r marc uchaf y mae wedi'i gyflawni dros y ddwy ymgais.

## Goblygiadau o ran ffioedd

**107.** Nid yw darparwyr fel arfer yn codi ffioedd ail-sefyll ar gyfer asesiadau sydd wedi'u gohirio oherwydd cais myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol. Fodd bynnag, gall darparwyr godi ffi ddysgu os yw myfyriwr yn ail-wneud y flwyddyn (neu'n ailadrodd modiwlau neu unedau unigol) oherwydd byddant yn mynychu dosbarthiadau unwaith yn rhagor ac yn defnyddio cyfleusterau'r darparydd.

**108.** Dylid nodi manylion unrhyw ffioedd ail-sefyll, neu ffioedd dysgu am ail-wneud blwyddyn, yn y gweithdrefnau perthnasol, fel y gall myfyrwyr wneud dewis gwybodus ynghylch pa ddeilliant i ofyn amdano.

# Apeliadau

## Amseru apeliadau

**109.** Dylid caniatáu i fyfyrwyr apelio yn erbyn deilliant eu cais am ystyriaeth ychwanegol. Dylai gweithdrefnau'r darparydd nodi'n glir a all y myfyriwr apelio yn syth ar ôl cael gwybod am ddeilliant ei gais, neu a all apelio dim ond ar ôl i'r bwrdd arholi gwrdd i benderfynu ar ei ganlyniadau. Dylid gwneud terfynau amser ar gyfer apelio yn glir a dylai'r gweithdrefnau gyfeirio myfyrwyr at ffynonellau ar gyfer cyngor a chymorth.

**110.** Dylai'r gweithdrefnau hefyd ei gwneud yn glir a ddylid gwneud ceisiadau hwyr am ystyriaeth ychwanegol o dan y broses ystyriaeth ychwanegol, neu a ddylai'r myfyriwr gyflwyno apêl academaidd.

## Sail ar gyfer apêl

**111.** Dylai fod gan fyfyrwyr yr hawl i apelio os gwrthodwyd eu cais am ystyriaeth ychwanegol, neu os ydynt yn anfodlon â'r deilliant a roddwyd ar waith mewn ymateb i gais a ganiatawyd. Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y seiliau a ganiateir ar gyfer apelio, a allai gynnwys:

- Na ddilynwyd y gweithdrefnau yn iawn;
- Bod y penderfyniad y daethpwyd iddo, neu'r deilliant, yn afresymol;
- Nad oedd y darparydd wedi ystyried y cais yn iawn, er enghraifft, roedd wedi anwybyddu gwybodaeth berthnasol yr oedd y myfyriwr wedi'i chynnwys;
- Nad oedd y darparydd wedi rhoi rhesymau dros ei benderfyniad;
- Bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oedd yn gallu, am resymau da, ei darparu ynghynt yn y broses;
- Bod yna ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y broses

## Prosesau apelio

**112.** Fel rheol, bydd darparwyr yn ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ynghylch ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol o dan eu gweithdrefn ar gyfer apeliadau academaidd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar [Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd](#).

## Adolygiad allanol annibynnol (SDA)

**113.** Os bydd y darparydd yn gwrthod apêl y myfyriwr ac unrhyw gais dilynol am adolygiad, dylai ddweud wrth y myfyriwr am ei benderfyniad yn ysgrifenedig, yn ogystal â chyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau cyn gynted â phosibl, ac o fewn 28 diwrnod. Dylai hwn gynnwys esboniad clir o'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd hyn o gymorth i'r myfyriwr benderfynu a yw'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

**114.** Dylai'r penderfyniad hefyd ddweud wrth y myfyriwr am y canlynol:

- Ei hawl i gyflwyno cwyn i SDA i'w hadolygu
- Y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny
- Ble a sut i gael gafael ar gyngor a chymorth.

**115.** Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i SDA yw 12 mis. Mae'n arfer da tynnu sylw'r myfyriwr at unrhyw ffactorau y mae'r darparydd yn ymwybodol ohonynt, sy'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig i'r myfyriwr ddwyn y mater i sylw SDA yn brydlon, er enghraifft oherwydd bod y cwrs yn cael ei ddirwyn i ben.

# Prosesau ystyriaeth ychwanegol a chymorth i astudio

**116.** Dylai prosesau ystyriaeth ychwanegol fod yn rhan o fframwaith ehangach o sgiliau astudio a mathau eraill o gymorth, fel bod myfyrwyr yn cael eu hannog i ddatblygu arferion astudio da a'r gwytnwch i ddelio â digwyddiadau bywyd yn yr un ffordd ag y byddai disgwyl i weithiwr cyflogedig wneud yn y gweithle. Mae ymyriad cynnar lle mae'n ymddangos bod myfyriwr yn cael anawsterau yn allweddol. Dylid sicrhau nad oes ond angen i fyfyriwr ddefnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol os yw ei amgylchiadau'n ddifrifol a'u bod wedi cael effaith sylweddol ar ei berfformiad neu ei allu i astudio.

**117.** Mae'n bosib y bydd gan fyfyriwr sy'n gwneud ceisiadau dro ar ôl tro am ystyriaeth ychwanegol broblem sylfaenol, ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno. Mae'n bwysig bod darparwyr yn gallu dynodi'r myfyrwyr hynny fel eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gall hyn olygu cynnwys staff cymorth iechyd meddwl neu anabledd y darparydd, neu ofyn i'r myfyriwr geisio cymorth neu gyngor meddygol. O'r herwydd, dylai fod gan ddarparwyr strwythurau ar waith i nodi pan fydd myfyrwyr yn defnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol dro ar ôl tro. Dylai defnyddio'r broses dro ar ôl tro sbarduno sgwrs gyda'r myfyriwr am ei anghenion o ran cymorth.

**118.** Gellir dilyn prosesau cymorth i astudio (neu addasrwydd i astudio) mwy ffurfiol pan fo pryderon bod iechyd meddwl neu gorfforol myfyriwr yn effeithio'n sylweddol ar ei allu i gyfranogi'n llawn ac yn effeithiol yn ei astudiaethau academaidd, neu fywyd yn gyffredinol yn y darparydd. Dylai'r broses ar gyfer ystyriaeth ychwanegol egluro pryd, ac o dan ba amgylchiadau, y gellir cyfeirio myfyriwr at y weithdrefn cymorth i astudio. Nod y broses cymorth i astudio yw asesu a oes angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr sydd â phatrwm o salwch neu afiechyd hir-dymor i barhau â'u hastudiaethau, neu a oes angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau. Mae Atodlen 1 yn cynnwys canllawiau ar brosesau cymorth i astudio.

## ASTUDIAETH ACHOS 13: Dynodi myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol

Mae myfyriwr yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol sawl gwaith yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Dywed y myfyriwr ei fod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'i astudiaethau a gyda bywyd yn gyffredinol. Ar wahân i hyn, mae tiwtor personol y myfyriwr yn sylwi ei fod yn aml yn absennol a phan fydd yn mynychu dosbarthiadau, mae'n ymddangos yn dawedog ac yn dweud nad yw wedi cysgu na bwyta'n iawn. Pan fydd y myfyriwr yn gwneud cais arall am ystyriaeth ychwanegol, mae'r darparydd yn cyfeirio'r myfyriwr at ei broses cymorth i astudio. Mae'r darparydd yn cwrdd â'r myfyriwr ac yn ei annog i wneud apwyntiad gyda'u gwasanaeth cwnsela ac i ymweld â'i feddyg teulu. Rhoddir cefnogaeth ychwanegol ar waith i'r myfyriwr ac mae'n cwblhau ei flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus.

# Prosesau ystyriaeth ychwanegol ac addasrwydd i ymarfer

**119.** Mae angen i fyfyrwyr ar gyrsiau proffesiynol allu dangos eu bod yn addas i ymarfer. Ni fydd anawsterau iechyd corfforol neu feddyliol yn unig fel arfer yn peri pryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer, ond gallant wneud hynny os nad yw'r myfyriwr yn ceisio cymorth priodol neu ddim yn rheoli ei gyflwr yn dda. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer Addasrwydd i ymarfer.

**120.** Fel rheol, ni fydd gofyn am ystyriaeth ychwanegol yn peri pryderon ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer: dyma'r llwybr priodol i'w ddilyn os yw perfformiad neu bresenoldeb myfyriwr mewn asesiadau wedi cael eu heffeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

**121.** Ond mae'n bosib y bydd rhai achlysuron lle, oherwydd natur cais y myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol, y bydd angen i'r darparydd ystyried a oes unrhyw oblygiadau o ran ei addasrwydd i ymarfer. Er enghraifft, os ydyn nhw'n dioddef o broblemau iechyd a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth, ond nid ydynt wedi cymryd camau priodol i reoli hyn. Dylid cynnig cymorth ac arweiniad priodol i'r myfyriwr. Ond lle na ellir datrys y pryderon yn y ffordd yma, efallai y bydd angen cyfeirio'r myfyriwr at weithdrefnau addasrwydd i ymarfer y darparydd. Dylai'r myfyriwr gael cefnogaeth trwy'r broses ac efallai y byddai'n briodol i'r darparydd ofyn i'r myfyriwr gynnig mwy o wybodaeth a thystiolaeth am ei afiechyd neu ofyn i'r myfyriwr fynychu asesiad iechyd galwedigaethol.

# Materion yn ymwneud â chwynion a godir mewn ceisiadau am ystyriaeth ychwanegol

**122.** Weithiau, gall cais myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol gynnwys gwybodaeth y dylid ei hystyried yn gŵyn, er enghraifft os yw cais myfyriwr yn seiliedig ar adroddiadau o fwlio neu aflonyddu gan fyfyrwyr eraill neu staff. Mewn achosion o'r fath, mae'n arfer da i'r darparydd ofyn i'r myfyriwr a yw am wneud cwyn ffurfiol a'u cyfeirio at y weithdrefn ar gyfer gwneud hynny.

**123.** Mewn rhai achosion, gall fod yn bosib i'r darparydd ddod i benderfyniad ynghylch cais am ystyriaeth ychwanegol myfyriwr heb orfod ymchwilio i unrhyw gwynion. Er enghraifft, os yw'r myfyriwr wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod ei amgylchiadau wedi achosi gofid sylweddol iddo, efallai na fydd angen sefydlu bod y gofid wedi ei achosi gan weithredoedd myfyrwyr eraill neu staff er mwyn penderfynu a ddylid derbyn cais y myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol. Mewn achosion eraill, mae'n bosib y bydd angen i'r darparydd ohirio cais y myfyriwr am ystyriaeth ychwanegol tra bydd yn ymchwilio i'r gŵyn. Dylid egluro hyn i'r myfyriwr. Os nad yw'r myfyriwr am wneud cwyn, dylid egluro goblygiadau hyn o ran ei gais am ystyriaeth ychwanegol.

# Monitro ystadegol ac adrodd yn ôl

**124.** Mae'n arfer da i ddarparwyr gasglu data ar eu prosesau ystyriaeth ychwanegol. Gall hyn fod er mwyn asesu a yw grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli o ran eu defnydd o'r broses (er enghraifft, fel rhan o asesiad effaith ynghylch cydraddoldeb), a oes newidiadau yn y mathau o geisiadau sy'n cael eu gwneud, er mwyn nodi a oes yna dueddiadau neu faterion diwylliannol mewnol y mae angen mynd i'r afael â hwy (megis myfyrwyr yn defnyddio'r system i ledaenu asesiadau anodd dros gyfnod o amser) neu os oes adrannau neu gyrsiau lle mae niferoedd anghymesur o uchel neu isel o fyfyrwyr yn gwneud ceisiadau o'r fath. Mae'n arfer da i ddarparwyr rannu'r data hwn â'u cyrff cynrychioli myfyrwyr, cyhyd â bod gwybodaeth bersonol sensitif am fyfyrwyr unigol yn cael ei diogelu.

**125.** Os yw'n ymddangos nad yw rhai grwpiau o fyfyrwyr yn defnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol pan ddylent fod yn gwneud hynny, efallai y bydd y darparydd am gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Gall darparwyr, er enghraifft, weithio gyda'u cyrff cynrychioli myfyrwyr i dynnu sylw myfyrwyr at y broses ac i chwalu'r rhwystrau sy'n atal ei defnyddio.

## ASTUDIAETH ACHOS 14: Monitro'r defnydd o brosesau ystyriaeth ychwanegol ac allgymorth

Sylwodd darparydd ei fod yn derbyn nifer anghymesur o isel o geisiadau am ystyriaeth ychwanegol gan fyfyrwyr rhyngwladol, ond nifer anghymesur o uchel o apeliadau academaidd yn seiliedig ar amgylchiadau y gellid fod wedi eu datgelu yn gynharach. Mewn llawer o'r achosion hynny, gallai'r darparydd fod wedi cynnig cymorth ychwanegol pe bai'r myfyrwyr wedi defnyddio'r broses ystyriaeth ychwanegol ar yr amser priodol. Gweithiodd y darparydd gyda'i gorff cynrychioli myfyrwyr, gan gynnwys ei gymdeithasau myfyrwyr rhyngwladol, i sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod am y broses ystyriaeth ychwanegol ac i'w hannog i ddatgelu unrhyw anawsterau yn gynnar yn eu hastudiaethau, fel y gellid cynnig cymorth iddynt.

# Adnoddau defnyddiol

Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Deddf Cydraddoldeb 2010 Canllawiau Technegol ar Addysg Bellach ac Uwch
https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-act-2010-technical-guidance-further-and-higher-education

Swyddfa Myfyrwyr (OfS): Cyngor ac Arweiniad
https://www.officeforstudents.org.uk/advice-and-guidance/

Fframwaith Arfer Da SDA: Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/handling-complaints-and-academic-appeals/

Fframwaith Arfer Da SDA: Rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/supporting-disabled-students/

Fframwaith Arfer Da SDA: Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/delivering-learning-opportunities-with-others/

Fframwaith Arfer Da SDA: Addasrwydd i ymarfer
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/fitness-to-practise/

Fframwaith Arfer Da SDA: Gweithdrefnau disgyblu
https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/disciplinary-procedures/

Nodyn Canllaw ar gyfer Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau SDA
https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters/completions-of-procedures-letters-guidance-note/

QAA: Cymorth ac Arweiniad COVID-19
https://www.qaa.ac.uk/news-events/support-and-guidance-covid-19

QAA: Cod Ansawdd
https://www.qaa.ac.uk/quality-code

QAA: Cod Ansawdd: Cyngor ac Arweiniad
https://www.qaa.ac.uk/quality-code/advice-and-guidance

Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd (UKSCQA): Egwyddorion ar gyfer dylunio algorithm gradd effeithiol
https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/principles-degree-algorithm-design.aspx

# Atodlen 1: Prosesau cymorth i astudio

1. Bydd darparwyr yn cynnig cymorth academaidd ac ehangach o ran llesiant i fyfyrwyr mewn sawl ffordd wahanol. Weithiau, bydd myfyrwyr yn dal i fod yn bryderus na allant ddilyn eu hastudiaethau hyd eithaf eu gallu, hyd yn oed gyda chymorth o'r fath ar gael iddynt.

2. Gellir dilyn prosesau cymorth i astudio (neu addasrwydd i astudio) pan fo pryderon bod iechyd meddwl neu gorfforol myfyriwr yn effeithio'n sylweddol ar ei allu i gyfranogi'n llawn ac yn effeithiol yn ei astudiaethau academaidd, neu fywyd yn gyffredinol yn y darparydd. Nod y broses cymorth i astudio yw asesu a oes angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr sydd â phatrwm o salwch neu afiechyd hir-dymor i barhau â'u hastudiaethau, neu a oes angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau. Mae'n bosib y bydd angen i fyfyrwyr sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiad sydyn a difrifol yn eu bywydau, megis marwolaeth aelod o'r teulu, neu ddioddef yn sgil trosedd, ddefnyddio proses cymorth i astudio er mwyn cymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau.

3. Mae'n arfer da nodi prosesau clir i fyfyrwyr sydd eisiau gofyn am amser i ffwrdd o'u hastudiaethau. Dylai darparwyr nodi'n glir:

   - Sut y dylai myfyriwr ofyn am amser i ffwrdd o'i astudiaethau;
   - A yw'n ofynnol i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth ynghylch pam ei fod am gymryd amser i ffwrdd o'i astudiaethau;
   - Pwy fydd yn penderfynu a ellir caniatáu i fyfyrwyr gymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau;
   - Y llwybr ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chaniatáu'r cais;
   - P'un a oes terfyn amser i'r myfyriwr gwblhau ei gwrs.

4. Dylai prosesau ar gyfer ystyried cais myfyriwr am amser i ffwrdd o'i astudiaethau fod yn gymesur a dylid eu cwblhau mewn modd amserol. Mae'n bwysig diogelu'r wybodaeth bersonol sensitif y gall myfyrwyr ei rhannu i ategu eu cais. Dylai darparwyr gymryd camau i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson, yn ogystal â chydnabod y ffactorau unigol ym mhob achos.

5. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cael cyngor ynghylch effaith ehangach cymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau, yn enwedig o ran yr effaith ar eu cymhwysedd i dderbyn cyllid myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd gyfredol ac mewn blynyddoedd i ddod. Mae'n bosib y bydd angen cyngor ar fyfyrwyr rhyngwladol ynghylch sut y bydd amser i ffwrdd o astudio yn effeithio ar eu statws o ran fisa. Mae hefyd yn bosib y bydd gan fyfyrwyr gwestiynau ynghylch a allant aros mewn llety sy'n benodol at ddefnydd myfyrwyr. Mae'n arfer da cyfeirio myfyrwyr at ffynonellau cyngor arbenigol yn y meysydd hyn. Dylai darparwyr esbonio i fyfyrwyr a fydd telerau eu ffioedd dysgu yn newid, ac os ydyn nhw ym mha ffordd, yn sgil cymryd amser i ffwrdd o'u hastudiaethau.

**6.** Mae hefyd yn bwysig dweud wrth fyfyriwr a yw cymryd amser i ffwrdd o'i astudiaethau'n debygol o gyfyngu neu newid ei opsiynau wrth ddychwelyd i'r cwrs, er enghraifft, os na fydd modiwl penodol yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd academaidd dilynol. Mae'n hanfodol dweud wrth fyfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster mewn proffesiwn rheoledig ynghylch unrhyw effaith y gallai amser i ffwrdd o'r cwrs ei chael ar eu gallu i gwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn broffesiynol. Dylai darparwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr sydd ddim yn ymgysylltu â'u hastudiaethau ar hyn o bryd ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol i'w cwrs astudio.

**7.** Mae'n arfer da sicrhau bod cofnod y myfyriwr yn dangos yn gywir y dyddiadau pan nad oedd yn mynychu ei gwrs astudio. Dylid cofnodi statws myfyriwr yn gywir. Mae'n arfer da egluro unrhyw derm a ddefnyddir i ddisgrifio statws y myfyriwr (wedi gohirio, wedi atal, wedi tynnu allan dros dro, a.y.b.)

**8.** Weithiau, gall darparydd benderfynu dechrau'r broses cymorth i astudio, yn hytrach na bod y myfyriwr yn gwneud cais am hyn. Dylid darparu arweiniad clir i fyfyrwyr o dan ba amgylchiadau y gellir cyfeirio myfyriwr at y weithdrefn cymorth i astudio. Lle mae darparydd yn cychwyn proses ffurfiol ar gyfer cymorth i astudio, dylai sicrhau bod y myfyriwr yn deall y broses sy'n cael ei dilyn, ac mai diben y broses honno yw cynnig cefnogaeth. Dylai'r darparydd gyfeirio'r myfyriwr at ffynonellau cymorth priodol trwy'r broses, er enghraifft gan staff cymorth anabledd neu ganolfan gynghori'r corff cynrychioli myfyrwyr.

**9.** Mewn rhai amgylchiadau, gall fod pryder digonol am lesiant y myfyriwr, neu'r effaith a gaiff ar aelodau eraill o'r gymuned academaidd, nes ei bod yn briodol gweithredu ar unwaith, cyn y gellir casglu gwybodaeth fanwl am amgylchiadau'r myfyriwr. Dylai darparwyr ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Fframwaith Arfer Da: gweithdrefnau disgyblu (paragraffau 115-120) os oes angen cyfyngu mynediad myfyriwr i wasanaethau'r darparydd.

**10.** Mae'n bwysig esbonio'n glir i fyfyriwr pa dystiolaeth gaiff ei hystyried am eu gallu i ymgysylltu â'u hastudiaethau. Pan fydd darparwyr angen tystiolaeth ategol am iechyd meddwl neu gorfforol myfyriwr, dylent sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn gymesur, a bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei thrin yn sensitif ac yn briodol. Mae'n ddefnyddiol egluro beth fydd yn digwydd os bydd y myfyriwr yn gwrthod darparu'r math hwn o dystiolaeth neu'n gwrthod ymgysylltu â'r broses cymorth i astudio.

**11.** Nid yw'n briodol fel rheol ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr ymgynghori ag ymarferydd a bennir gan y darparydd er mwyn cael gwybodaeth am ei iechyd. Mae'n debygol mai ymarferydd meddygol y myfyriwr ei hun sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu manylion am ei iechyd. Fodd bynnag, gall darparwyr ofyn i fyfyrwyr gymryd rhan mewn asesiad newydd gan rywun sy'n meddu ar arbenigedd priodol, i ystyried pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i gynnig cymorth i'r myfyriwr (er enghraifft, ymarferydd iechyd galwedigaethol neu ymarferydd asesu anghenion anabledd). Mae'n ddefnyddiol egluro beth fydd yn digwydd os bydd myfyriwr yn gwrthod cymryd rhan mewn asesiad o'r fath.

**12.** Mae'n arfer da rhoi'r wybodaeth sy'n cael ei hystyried i'r myfyriwr, a rhoi cyfle i'r myfyriwr ymateb i'r wybodaeth honno. Gall hyn ddigwydd mewn cyfarfod, neu'n ysgrifenedig. Mae'n bwysig gweithredu'r weithdrefn yn hyblyg er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol y myfyriwr. Dylai'r weithdrefn egluro a ellir dod i benderfyniad heb fod y myfyriwr yn cymryd rhan, ac o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud hynny.

**13.** Mae'n arfer da dweud wrth y myfyriwr pwy fydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, gan felly roi cyfle i'r myfyriwr wrthwynebu cyfranogiad unigolyn cyn i wybodaeth bersonol sensitif gael ei rhannu.

**14.** Dylai'r penderfyniadau a wneir o dan broses cymorth i astudio fod yn rhesymol ac yn gymesur, a dylid eu hesbonio'n glir i'r myfyriwr.

**15.** Pan wneir penderfyniad bod angen i fyfyriwr gymryd amser i ffwrdd o astudio, mae'n arfer da nodi pa mor hir y disgwylir i'r cyfnod fod. Mae'n bwysig nodi'n glir unrhyw amodau ar gyfer dychweliad y myfyriwr, a pha dystiolaeth y disgwylir i fyfyriwr ei darparu i gadarnhau ei fod yn barod i ail-ymgysylltu â'i astudiaethau. Nid yw'n briodol fel rheol ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr sydd wedi cymryd amser i ffwrdd o'i astudiaethau, am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant, gwblhau gwaith academaidd ychwanegol er mwyn cael caniatâd i ddychwelyd i'r cwrs.

**16.** Dylai'r myfyriwr gael gwybodaeth am y canlynol:

- Ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan broses cymorth i astudio;
- Ar ba sail y gall ef neu hi wneud hynny;
- Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl;
- Ble a sut i gael gafael ar gymorth.

**17.** Dylai'r apêl gael ei hystyried gan rywun sydd heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r penderfyniad, a dylai'r myfyriwr gymryd peth amser i ffwrdd o'i astudiaethau.

**18.** Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, neu os na chaniateir iddi fynd yn ei blaen ar sail yr amodau ar gyfer gwneud apêl, dylid anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr o fewn 28 diwrnod.

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er Addysg Uwch**

Second Floor
Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813
e-bost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk